# Canllaw Dylunio Preswyl Caerdydd

Canllawiau Cynllunio Atodol



Ionawr 2017

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad**

**2 Amgylcheddau preswyl yng Nghaerdydd**

**3 Trefniant y canllaw hwn**

**4 Cyd-destun polisi cynllunio Caerdydd**

**7 Y broses ddylunio gywir**

7 Tîm dylunio
7 Lluniadau dylunio
9 Ymgynghori ac ymgysylltu
9 Adolygu Dylunio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru
10 Y broses ddylunio anghywir

**11 Crynodeb o'r prif gwestiynau dylunio sydd angen ymdrin â hwy**

**12 Rhan o'r gymdogaeth**

13 A yw'r datblygiad yn darparu, neu a yw'n agos at, gyfleusterau cymdogaethau sy'n gyraeddadwy ar hyd llwybrau cerdded a beicio uniongyrchol a diogel?
15 A oes cymysgedd llety/deiliadaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned leol?
15 A oes gan y datblygiad fynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus?
17 A yw'r cynllun wedi'i gysylltu'n dda yn fewnol ac i'w gyd-destun?

**18 Creu llefydd**

19 A yw'r datblygiad yn gwneud defnydd effeithlon o dir ac yn darparu cartrefi ar ddwysedd rhesymol?
21 A yw'r dyluniad yn benodol i'r cynllun?
25 Ydy'r cynllun yn integreiddio'n sympathetig ag adeiladau, tirlun neu dopograffeg bresennol?
28 A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn ei gwneud yn hawdd canfod eich ffordd o gwmpas ac yn ffurfio treflun deniadol?
31 A yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddigonol o fannau cyhoeddus a gynlluniwyd yn dda?
35 A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn helpu i'ch gwneud chi deimlo'n ddiogel a lleihau cyfleoedd i droseddu?
37 A oes gan y datblygiad nodweddion sy'n lleihau ei effaith ar yr amgylchedd?

**39 Stryd a'r cartref**

40 A yw'r strydoedd a gofod wedi'u diffinio gan adeiladau a thirwedd fel nad yw priffyrdd yn dominyddu eu cymeriad?
43 A yw'r strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u cynllunio gyda phwrpas clir ac i safon sy'n bodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr posibl?
46 Strydoedd â gofod a rennir yn defnyddio egwyddorion dylunio parth cartref
48 A yw'r parcio'n ddigonol i breswylwyr ac ymwelwyr ac wedi ei integreiddio'n dda fel nad yw'n dominyddu'r olygfa stryd?
48 Parcio ceir
51 Parcio beiciau
52 A yw'r tai unigol wedi'u cynllunio'n dda i gwrdd ag anghenion a dyheadau preswylwyr y dyfodol a hefyd mewn perthynas â'u cyd-destun?
53 A yw'r dyluniad yn cydymffurfio â'r safonau amwynder angenrheidiol?
53 Preifatrwydd
53 Mannau amwynder awyr agored
53 Golygwedd
53 Golau dydd a golau haul
54 Sut y defnyddiwn asesiadau golau dydd a golau haul
56 A yw'r cynllun yn cynnwys cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu digonol a gynlluniwyd yn dda, a gofal o ran lleoliad ac integreiddio cypyrddau mesuryddion?
57 A yw'r strydlun yn ddeniadol a chadarn?
57 Wynebau
58 Celfi Stryd
59 Celf Gyhoeddus

**60 Cyhoeddiadau defnyddiol y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn**

**61 Crynodeb o Sylwadau Ymgynghoriad Allanol ac Ymatebion**

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i amlinellu canllawiau manwl ynglŷn â'r ffordd y defnyddir polisïau cynllun datblygu amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisïau cynllun datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r CCA yn helpu i sicrhau y deellir polisïau a chynigion penodol yn well a'u gweithredu'n fwy effeithiol. Nid oes ganddynt yr un statws â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, ond maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae'r canllawiau cynllunio atodol (CCA) hyn yn amlinellu'r materion y dylai dyluniad ar gyfer datblygiadau preswyl newydd yng Nghaerdydd ymdrin â hwy wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio. Mae'n berthnasol i gynigion datblygu preswyl mawr sy'n darparu 10 annedd neu fwy, ac sydd angen Datganiad Dylunio a Mynediad. Gellir canfod cyngor dylunio ar brojectau preswyl llai yn y CCA *Safleoedd Mewnlenwi*.

Mae'r canllaw hwn yn ategu ac mae'n unol â pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar ddylunio, fel y'i cyflwynir ym *Mholisi Cynllunio Cymru* (Llywodraeth Cymru, diweddarir yn gyson) a *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* (Llywodraeth Cymru, diweddarir yn gyson). Mae hefyd yn cefnogi y gweithrediad priodol y *Llawlyfr Strydoedd* (Adran Drafnidiaeth, 2007). Dylid ei ddarllen ar y cyd â pholisïau yng *Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026* (Cyngor Caerdydd, 2016) cyfredol, *Canllaw Dylunio Bywiadwyedd Caerdydd* (1) (Cyngor Caerdydd, 2015) a chanllawiau cynllunio atodol eraill Cyngor Caerdydd y croesgyfeirir atynt yn y testun.


Dylai dylunwyr fod yn ymwybodol o'r angen i fodloni Rheoliadau Adeiladu, a dylent ddatblygu cynlluniau sy'n cydymffurfio â'r ddwy gyfundrefn reoleiddiol.

Ysgrifennir y canllaw hwn yn y wybodaeth lawn fod rhaid i Gyngor Caerdydd weithio'n agos â'r diwydiant adeiladu tai a bod yn ymwybodol o'r amodau marchnad perthnasol. Mae ansicrwydd, oedi a newid gofynion yn hwyr yn y broses gynllunio yn achosi pryderon mawr i ddatblygwyr a'r awdurdod cynllunio, ac felly mae'r canllaw hwn yn rhoi datganiad clir o'r hyn a ddisgwylir gan yr awdurdod cynllunio o ran y modd y dylid cyflwyno gwybodaeth ddylunio, ond hefyd sut y dylid ymdrin â materion dylunio. Gellir ymdrin yn effeithlon â cheisiadau cynllunio a gyflwynir yn unol â'r gofynion hyn.

### Defnydd o ddelweddau

Noder y cynhwysir delweddau yn y ddogfen hon i egluro pwyntiau penodol y cyfeirir atynt yn y testun. Nid yw cynnwys delwedd yn golygu cymeradwyaeth gyffredinol o nodweddion eraill y cynllun.

*1. Gellir darllen y canllaw hwn ar y cyd â Chanllaw Dylunio ywiadwyedd Caerdydd sy'n darparu creu llefydd, cynllunio a chanllaw dylunio trefol y bydd y Cyngor yn eu defnyddio mewn Safleoedd Datblygu Strategol ar draws y ddinas.*



# Amgylcheddau preswyl yng Nghaerdydd

Mae Caerdydd yn ddinas gymharol gywasgedig gyda chanol dinas lwyddiannus a bae atgynhyrchiol. Mae'n cynnwys datblygiadau preswyl sy'n adlewyrchu ei hanes a chyfnodau o dwf. Ceir llawer o gymdogaethau poblogaidd sy'n agos at fannau agored sylweddol, ac a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus , gyda chymysgedd gyfleus o ddefnyddiau. Yn y maestrefi mewnol, gall pobl symud o gwmpas ar droed.  Tuedda'r defnyddiau cymdogaeth fod yn hygyrch ar strydoedd rheiddiol. Mae'r seilwaith beicio'n gwella.

Yn y ddinas ceir nifer o dai Fictoraidd ac  Edwardaidd o bwys, o amgylch parciau trefol deniadol iawn (2), a hefyd maestref gardd boblogaidd (3). Tuedda'r maestrefi allanol a adeiladwyd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf i gynnwys amgylcheddau cymdogaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i'r car (4). Mae cerdded yn llai poblogaidd ac nid oes cymeriad arbennig i nifer o'r amgylcheddau. Tueddwyd i osod darpariaeth defnyddiau i'r gymdogaeth mewn adeiladau annibynnol a ddominyddir gan barcio ceir. Mae'r cymdogaethau hyn yn adlewyrchu nodweddion datblygiadau tebyg a ddigwyddodd mewn mannau eraill yn y DU.

Yn yr ychydig ddegawdau diwethaf, gwelwyd twf sylweddol hefyd o ran byw mewn fflatiau yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd. Mae'r rhan fwyaf o'r cartrefi yn yr ardaloedd hyn yn rhai 1 a 2 ystafell wely, ac er y bu'r fflatiau'n llwyddiannus, yn aml gyda lleoliad gwych yn edrych dros y bae, weithiau cawsant eu cynllunio mewn ffurf ynysig neu gydag adwy, nad yw bob amser wedi arwain at lawer o fywiogrwydd cerddwyr yn eu cyd-destunau, na sefydlu unrhyw strydoedd neu fannau cyhoeddus gwirioneddol wych rhyngddynt (5).

Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflenwi 41,000 o anheddau newydd yng Nghaerdydd dros gyfnod y cynllun. Pwysleisia'r twf sylweddol bwysigrwydd y canllaw hwn wrth i ni geisio sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu cynllunio a'u dylunio i atgyfnerthu neu sefydlu cymdogaethau a llefydd cynaliadwy newydd yn unol â'r arferion dylunio trefol cyfoes gorau.

Ar draws y DU, arweiniodd ffyrdd newydd o feddwl ac ymarfer at welliannau mawr mewn datblygiadau preswyl newydd i oresgyn rhai o ddiffygion cydnabyddedig cynlluniau datblygu blaenorol, ac mae polisi a chanllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi pwerau drwy'r system gynllunio i sicrhau bod datblygiadau yma yng Nghaerdydd hefyd yn cael eu dylunio a'u datblygu i'r safonau uchaf.



*2.  Ceir llawer o ardaloedd preswyl Edwardaidd poblogaidd yng Nghaerdydd sy'n dal i fod yn boblogaidd heddiw.*



*3. Pentref Gardd Rhiwbeina*



*4.  Mae maestrefi allanol a adeiladwyd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf yn cynnwys amgylcheddau sy'n rhoi blaenoriaeth i'r car.*




*5. Mae rhai fflatiau diweddar wedi eu dylunio mewn ffurf ynysig neu gydag adwy nad yw bob amser wedi arwain at lawer o fywiogrwydd cerddwyr yn eu cyd-destunau.*

# Trefniant y canllaw hwn


Dim ond ar ôl i ddylunwyr da gael y cyfle i gwblhau'r broses gynllunio a dylunio briodol y daw dylunio da i'r amlwg. Mae'r canllaw hwn yn cychwyn drwy amlinellu sut y byddem yn disgwyl i'r broses honno gael ei threfnu fel bod dylunwyr yn cael yr amser a'r cyfle i ymdrin â'r materion a gyflwynir yma.

Yn dilyn hyn, rydym yn cynnig cyngor am yr ystod lawn o faterion sy'n peri pryder i ni, wedi eu trefnu mewn themâu a chwestiynau a gyflwynir yn *Adeiladu am Oes 12 Cymru* (6) a gymeradwyir gan y diwydiant adeiladu, a'r marc ansawdd adeiladwyr tai *Adeiladu am Oes*. Dechreuwn drwy edrych ar sut y dylai'r cynllun gyd-fynd â'r gymdogaeth bresennol neu helpu i sefydlu cymdogaeth newydd. Yna, trafodir sut y dylai datblygiadau olygu llefydd nodedig sy'n cysylltu'n dda â'u cyd-destunau. Yn olaf, trafodir sut y dylai cartrefi newydd ffitio i mewn i strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae trefnu'r canllaw yn y modd hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r rhan o'r canllaw sydd fwyaf perthnasol i faint eich datblygiad. Dylai dylunwyr cynlluniau mwy o faint fod yn gyfarwydd â'r cyfan ohono, tra gall projectau llai ganolbwyntio, er enghraifft, ar faterion yn ymwneud ag adeiladau a strydoedd.

Gellir cyfleu llawer o'r materion hyn orau drwy gynlluniau priodol a delweddau eraill a gyflwynir yn gydlynol mewn datganiad dylunio a mynediad (DDM). Ceir cyngor da ar sut i gynhyrchu DDM yn *Nodyn Cyngor Technegol 12: Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad* (7) Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymell y dylai unrhyw DDM ddangos ac esbonio'n uniongyrchol sut mae unrhyw ddyluniad yn ymateb i'r materion a drafodwyd yma, ac yn y drefn y byddwn yn eu cyflwyno.




*6. Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar faterion a meini prawf a gyflwynir yn Adeiladu am Oes 12 Cymru*




*7. Gellir canfod canllaw da ar sut i gynhyrchu Datganiad Dylunio a Mynediad yn TAN12*

# Cyd-destun polisi cynllunio Caerdydd

Mae gan Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Caerdydd set gadarn o bolisïau a chanllawiau cynllunio sy'n rheoli a hyrwyddo dyluniad da o ran datblygiadau yn y ddinas. Argymhellir cynnal adolygiad trylwyr o bolisi a chanllawiau er mwyn deall beth allai fod yn berthnasol i safle. Er nad yw'n angenrheidiol darparu rhestr o bolisïau a chanllawiau perthnasol mewn datganiad dylunio a mynediad, mae'n bwysig egluro sut y mae'r nodweddion dyluniad wedi ystyried y gofynion.

Rydym yn argymell yn arbennig adolygiad o'r canlynol:

- Dynodiadau polisi cynllunio
- Dynodiadau tirwedd arbennig
- Gwerthusiadau o gymeriad ardal gadwraeth a manylion unrhyw henebion rhestredig neu adeiladau rhestredig neu asedau treftadaeth eraill sy'n dylanwadu ar safle
- Gorchmynion diogelu coed
- Unrhyw friffiau datblygu safle-benodol perthnasol
- Canllawiau Cynllunio Atodol eraill
- Hanes cynllunio'r safle

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol eraill sy'n ymwneud â datblygiadau preswyl hefyd yn cynnwys canllawiau ar safonau priffyrdd a pharcio, darparu tai fforddiadwy a mannau agored, rhwymedigaethau cynllunio, adeiladau uchel, celf gyhoeddus, hawliau tramwy cyhoeddus a datblygu, coed a datblygu, cyfleusterau cymunedol a datblygiad preswyl a chasglu gwastraff a storio. Fel bo angen, caiff ffurfiau newydd o ganllawiau eu creu drwy'r amser. Os ydych yn ansicr ynghylch pa ganllawiau cynllunio atodol a allai fod yn berthnasol i'ch datblygiad, gall y Cyngor roi cyngor i chi ynghylch pa rai fyddai fwyaf perthnasol mewn trafodaeth cyn cyflwyno cais.

Ceir gwybodaeth berthnasol ar wefan Cyngor Caerdydd, gan gynnwys y *Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd* cyfredol a rhestr lawn o'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Gwneir gwerthusiad o'r cynllun yn erbyn polisïau dylunio, canllawiau a safonau cenedlaethol a lleol gan swyddogion y Cyngor, a gwneir argymhellion i'r pwyllgor cynllunio fel rhan o'r broses rheoli datblygu.

Mae nifer o bolisïau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud ag ansawdd dyluniad cynlluniau preswyl mawr, ac mae'r CCA hwn yn anelu at ddarparu mwy o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn disgwyl i ansawdd y dylunio hwn gael ei gyflawni:

### Polisi ar gyfer Uwchgynllunio ar Safleoedd Datblygu Strategol

Mae Polisi KP4 yng *Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd* yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatblygiad ar safle strategol o fwy na 500 cartref fabwysiadu dull uwchgynllunio. Ceir manylion ynghylch sut i gydymffurfio â'r gofyniad hwn ar wefan Cyngor Caerdydd yn:

- *Fframwaith Uwchgynllunio Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd*
- *Canllaw Dylunio Bywiadwyedd: Creu llefydd, dylunio trefol, pensaernïaeth*

Noda Polisi KP4 y dylai datblygiadau mawr gyd-fynd â'r Egwyddorion Cyffredinol Uwchgynllunio canlynol:

1. Bydd cynlluniau datblygu yn cael eu cynllunio mewn modd cynhwysfawr ac integredig, gan adlewyrchu gwaith partneriaeth a gosod allan gyflwyniad graddol y datblygiadau ynghyd â darpariaeth amserol o seilwaith cefnogol. Bydd angen i uwchgynlluniau gwmpasu'r cyfan o ardal ddatblygu beth bynnag fo'r patrymau perchnogaeth tir, a bydd hyn yn golygu gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys yr holl bartïon perthnasol;
2. Bydd datblygiadau dwysedd uchel preswyl a defnydd cymysg yn cael eu ffocysu ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus ac mewn canolfannau cymdogaeth, gyda darpariaeth dwyseddau is mewn mannau eraill i ddarparu amrywiaeth a dewis o lety cyffredinol i ddiwallu anghenion gwahanol;
3. Bydd coridorau trafnidiaeth gynaliadwy pwrpasol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded a fydd yn ffurfio elfennau allweddol yr uwchgynllun cyffredinol ac yn cysylltu'n effeithiol â'r rhwydwaith ehangach;
4. Bydd cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ddeniadol, ymarferol ac yn ddewis teithio cyfleus i bawb;
5. Bydd darparu ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol yn cael eu crynhoi mewn canolfannau cymdogaeth defnydd cymysg a leolir ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus ac sy'n hygyrch drwy gerdded a beicio;
6. Bydd y broses uwchgynllunio yn ymateb yn effeithiol i'r cyd-destun lleol a chyd-destun newid yn yr hinsawdd, er mwyn creu cymdogaethau newydd a gynlluniwyd yn dda gyda chymeriad unigryw y bydd preswylwyr yn falch ohonynt;
7. Bydd datblygiadau newydd yn ymateb i ddiffygion lleol a darparu cysylltedd da gydag ardaloedd cyfagos a'u hysbysu gan adborth o

gymunedau presennol;
8. Bydd mannau agored aml-swyddogaethol a gwyrdd cysylltiedig yn ffurfio cysylltiadau strategol bwysig i'r ardal gyfagos er mwyn darparu llwybrau i bobl a bywyd gwyllt a mannau agored i chwaraeon, hamdden a chwarae;
9. Bydd tirweddau presennol, bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol y safle yn cael eu hintegreiddio gyda chydymdeimlad i'r datblygiad, gan fanteisio ar gyfleoedd i warchod, gwella a rheoli nodweddion pwysig ynghyd â mesurau lliniaru a gwella i ddarparu mesurau cydadferol boddhaol;
10. Bydd atebion rheoli arloesol a chreadigol ar gyfer ynni, rheoli dŵr wyneb a gwastraff yn cael eu mabwysiadu er mwyn gwneud datblygiadau newydd yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Hefyd bydd datblygiadau yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir yn y fframweithiau uwchgynllunio safle-benodol, os ydynt wedi cael eu paratoi.

## Polisi ar gyfer Dylunio o Ansawdd Da a Chynaliadwy

Polisi KP5 yng *Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd* yw'r prif bolisi sy'n mynnu dylunio o ansawdd uchel, cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad positif i greu cymunedau, llefydd a gofod nodedig. Mae'r canllaw hwn yn ymhelaethu ar sut y gellir sicrhau gofynion y polisi hwn mewn cynlluniau preswyl a arweinir gan ddatblygiad. Gwna'r polisi hi'n ofynnol i'r datblygiad:

- Ymateb i gymeriad a chyd-destun lleol y gosodiad adeiledig a thirwedd fel bod cynllun, maint, ffurf, crynswth, uchder, dwysedd, lliw, defnyddiau, manylion a'r effaith ar y dreftadaeth adeiledig a naturiol i gyd yn derbyn sylw mewn cynigion datblygu;
- Darparu datblygiad clir sy'n hawdd mynd o'i gwmpas ac sy'n sicrhau ymdeimlad o barhad ac amgáu;
- Darparu amrywiaeth o ddefnydd tir i greu cymunedau cytbwys ac ychwanegu bywiogrwydd drwy gydol y dydd;
- Creu strydoedd, sgwarau a gofod rhyng-gysylltiedig fel mannau nodedig, sy'n ddiogel, hygyrch, a bywiog ac yn cynnwys celf gyhoeddus lle y bo'n briodol;
- Darparu amgylchedd iach a chyfleus i bob defnyddiwr sy'n cefnogi egwyddorion diogelwch cymunedol, annog cerdded a beicio, galluogi cyflogaeth, gwasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol i fod yn hygyrch ar drafnidiaeth gynaliadwy ac yn gwneud y mwyaf o gyfraniad rhwydweithiau o fannau agored aml-swyddogaethol a chysylltiedig er mwyn annog ffyrdd iachach o fyw;
- Macsimeiddio atebion ynni adnewyddadwy;
- Cyflawni dyluniad effeithlon o ran adnoddau ac ymatebol i'r hinsawdd sy'n darparu atebion rheoli dŵr a rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac yn lleihau allyriadau o drafnidiaeth, cartrefi a diwydiant;
- Cyflawni dyluniad addasadwy a all ymateb i ofynion cymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol yn y dyfodol;
- Hyrwyddo defnydd effeithiol o dir, gan ddatblygu ar y dwyseddau uchaf yn ymarferol a lle bo'n briodol, cyflawni adferiad tir halogedig;
- Sicrhau nad oes unrhyw effaith ormodol ar amwynder preswylwyr cyfagos a chysylltu'n gadarnhaol â chymunedau cyfagos;
- Meithrin dylunio cynhwysol, gan sicrhau adeiladau, strydoedd a gofod hygyrch i bob defnyddiwr ac addasu i newidiadau mewn ffordd o fyw yn y dyfodol; a
- Lleoli adeiladau uchel mewn mannau sy'n hygyrch iawn drwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus ac o fewn clwstwr presennol neu arfaethedig o adeiladau uchel.

## Ymateb i Anghenion Cymdeithasol sydd â Thystiolaeth Ohonynt

Mae Polisi KP13 yn ceisio datblygiadau sydd yn: cyflawni cymdogaethau cynaliadwy, ymdrin ag amddifadedd a gwella ansawdd bywyd i bawb. Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu ystod o feintiau, mathau a fforddiadwyedd anheddau gan gynnwys darparu'r targed o 6,646 o anheddau fforddiadwy dros y 12 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun
- Cefnogi bywiogrwydd, dichonoldeb ac atyniad y Canolfannau Ardal a Lleol presennol a'u hadfywiad, gan gynnwys datblygiadau manwerthu a masnachol a thai ar raddfa briodol;
- Annog darparu ystod lawn o gyfleusterau iechyd, hamdden, cymdeithasol, ac addysg a seilwaith cymunedol ar gyfer cymunedau presennol a newydd sy'n hygyrch i bawb drwy gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Cefnogi adfywio cymunedau difreintiedig yn y ddinas a gwneud y gorau o'r manteision ychwanegol a all ddod yn sgil cymunedau newydd i gymunedau cyfagos neu o amgylch;
- Annog gwella cymunedau trwy well mynediad cyfartal at wasanaethau i bawb, hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol ac ehangach i bob grŵp mewn cymdeithas, a chreu llefydd sy'n annog

rhyngweithio a chydlyniad cymdeithasol;
- Datblygu cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon; newydd i adeiladu ar rôl Caerdydd fel prif gyrchfan dwristaidd, ddiwylliannol a chwaraeon i ymwelwyr a pherswylwyr fel ei gilydd; a
- Dylunio trosedd allan a chreu cymunedau sy'n fwy diogel ac sy'n teimlo'n fwy diogel.

## Newid yn yr Hinsawdd

Mae Polisi KP15 yn ceisio lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu i'w effeithiau.
Dylai cynigion datblygu ystyried y ffactorau canlynol:
- Lleihau allyriadau carbon;
- Diogelu a chynyddu dalfeydd carbon;
- Addasu i oblygiadau newid yn yr insawdd ar lefel cynllunio strategol a manwl;
- Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy;
- Osgoi ardaloedd sy'n agored i berygl llifogydd yn y lle cyntaf, yn unol â'r dull dilyniannol a nodir mewn canllawiau cenedlaethol; a
- Rhwystro datblygiadau sy'n cynyddu risg llifogydd.

## Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr

Mae Polisi EN10 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ddefnyddio atebion Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr (y broses o integreiddio rheolaeth y cylch dŵr â'r amgylchedd adeiledig trwy gynllunio a dylunio trefol). I gynnwys rheoli'r canlynol:

- Galw am ddŵr a'r cyflenwad dŵr;
- Dŵr gwastraff a llygredd;
- Glawiad a dŵr ffo;
- Cyrsiau dŵr ac adnoddau dŵr;
- Llifogydd; a
- Llwybrau Dŵr.

## Cerdded a Beicio

Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno mathau o ddatblygiadau sy'n bodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru).

Mae Polisi T1 o *Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd* angen datblygiadau sy'n galluogi pobl i gael mynediad at waith, gwasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol drwy gerdded a beicio. Bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymgorffori:

- Dylunio o ansawdd uchel, cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at hynodrwydd cymunedau a lleoedd;
- Rhwydweithiau athraidd a chlir sy'n darparu llwybrau cerdded a beicio diogel, cyfleus a deniadol;
- Cysylltiadau ac estyniadau i *Rwydwaith Beicio Strategol Caerdydd* a llwybrau sy'n ffurfio rhan o *Gynllun Cymdogaethau Cerddadwy Caerdydd*;
- Mesurau i leihau cyflymder cerbydau a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr;
- Cysylltiadau cerdded a beicio diogel, cyfleus a deniadol i ddatblygiadau, cymdogaethau, swyddi a gwasanaethau presennol;
- Seilwaith a gynlluniwyd yn unol â safonau arfer da, gan gynnwys *Canllawiau Dylunio - Teithio Llesol* Llywodraeth Cymru, a Chanllawiau Dylunio Beicio'r Cyngor;
- Cyfleusterau cefnogol gan gynnwys arwyddion, parcio beiciau diogel a, lle bo angen, cawod a chyfleusterau newid; a
- Darpariaeth o ardaloedd di-gar.

## Diogelwch Cymunedol a Chreu Amgylcheddau Diogel

Mae Polisi C3 yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd ac ailddatblygiad gael eu dylunio i hyrwyddo amgylchedd diogel a sicr a lleihau'r cyfle am drosedd, Yn arbennig, bydd y datblygiad yn:

- Gwneud y mwyaf o wyliadwriaeth naturiol ardaloedd a allai fod yn agored i droseddu fel mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, mannau agored, mannau parcio ceir a llwybrau troed;
- Cael llwybrau, mannau a mynedfeydd wedi'u diffinio'n dda, sy'n darparu symudiad cyfleus heb beryglu diogelwch;
- Cynnal gwahaniaeth canfyddadwy rhwng mannau cyhoeddus a phreifat drwy ffiniau wedi'u diffinio'n dda a gofod amddiffynadwy;
- Darparu safon dda o oleuadau i fannau cyhoeddus a llwybrau tra'n lleihau'r defnydd o ynni a llygredd golau; a
- Dylunio gyda rheoli a chynnal a chadw mewn golwg, i atal troseddau yn y presennol a'r dyfodol.

## Iechyd

Mae Polisi C6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau leihau anghyfartaleddau iechyd a chefnogi dewisiadau byw'n iach trwy sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd ffisegol ac adeiledig sy'n cefnogi rhyng-gysylltedd a dewsiadau teithio llesol, yn ogystal â gwella diogelwch ffyrdd.

# Y broses ddylunio gywir

Dim ond o broses ddylunio gref y gall dyluniadau da ymddangos, proses a fydd hefyd yn darparu cynnwys yn hawdd ar gyfer datganiad dylunio a mynediad. Bydd dylunwyr addas yn gyfarwydd iawn â'r broses hon.

## Tîm dylunio

Bydd tîm dylunio cryf gyda hanes o lwyddiant o ran cyflenwi datblygiadau preswyl da yn deall y materion a gyflwynir yma ac yn gallu cyfeirio at gynseiliau addas. Dywed ein profiad wrthym fod tîm dylunio da yn darparu projectau llwyddiannus yn effeithlon, ac y gallai'r gofynion a gyflwynir yma fod angen mewnbwn proffesiynol gyda gwahanol fathau o arbenigedd.

Mae'n bwysig rhoi'r tîm cywir at ei gilydd i ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr mewn datblygiad preswyl, pensaernïaeth, mesur meintiau, pensaernïaeth tirwedd, dylunio trefol, peirianneg priffyrdd, teithio llesol, ecoleg, cynllunio, treftadaeth ac archaeoleg.

## Lluniadau dylunio

Mae paratoi lluniadau da ar gyfer y cais cynllunio a datganiad dylunio a mynediad yn ganolog i feddwl am nodweddion dylunio perthnasol y cynllun, a'u cyfleu. Mae'r Cyngor yn disgwyl tystiolaeth graffig glir yn ymwneud â'r materion a godir yn y ddogfen hon, a gellir gwastraffu amser yn y broses ceisiadau cynllunio os na ddarperir delweddau perthnasol ar y cychwyn. Dylai lluniadau ddangos y gofynion canlynol:

### Dadansoddiad Safle

Mae polisi Cymru ar ddylunio, a gyflwynir yn TAN 12, yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-destun a dadansoddiad safle:


*"Mae darparu ymateb dylunio ystyrlon a chynaliadwy yn dibynnu ar ddeall y safle a'i gyd-destun agos ac ehangach, ac mae hynny'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio, yn enwedig ymgeiswyr cynllunio a'u hasiantau..."* TAN 12 : Dylunio

Hefyd mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru (CDC) wedi paratoi canllawiau ar wahân, sef Dadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle sy'n esbonio sut i ymdrin â'r dasg (8). Cawsant eu hannog i wneud hyn oherwydd annigonolrwydd dadansoddiadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau a gyflwynwyd i'r Comisiwn Dylunio ar gyfer adolygu dylunio. Byddwn yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth asesu cynlluniau a gyflwynwyd yng Nghaerdydd.

Dylai dylunwyr gwblhau a chyflwyno dadansoddiad trylwyr i sicrhau eu bod yn deall yn llawn y cyd-destun a'r safle y byddant yn gweithio arno. Mae'r rhestr o faterion a allai ddod yn berthnasol yn anghyflawn gan fod yr holl gyd-destunau yn wahanol, ond rydym yn awgrymu cyflwyniad o'r wybodaeth ganlynol, os yw'n berthnasol i'r cynllun:

### Cyd-destun ehangach

- Y rhwydwaith o seilwaith gwyrdd neu systemau ecolegol, ardaloedd o gymeriad y dirwedd a lleoliad unrhyw rywogaethau a chynefinoedd a warchodir;
- Hawliau tramwy cyhoeddus a'r rhwydwaith ehangach o ffyrdd a llwybrau beicio;
- Y cyd-destun trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y rhwydwaith ehangach o wasanaethau trên a bws a hierarchaeth priffyrdd, gan gynnwys llwybrau beicio;
- Lleoliad a chynnwys y gymdogaeth, cyflogaeth a chanolfannau gwasanaeth cyfagos.




*8. Byddwn yn defnyddio'r canllawiau ar sut i gwblhau a chyflwyno dadansoddiad safle a chyd-destun a gynhyrchir gan Comisiwn Dylunio Cymru.*

## Y gymdogaeth

- Y ddarpariaeth o archfarchnadoedd a siopau lleol yn y cyffiniau, gan dynnu sylw at bellter cerdded ac ansawdd y llwybrau o'r safle;
- Lleoliad cyfleusterau lleol eraill megis ysgolion, adeiladau crefyddol, meithrinfeydd, meddygon, deintyddion, adeiladau cymunedol a thafarndai, tynnu sylw hefyd at bellter cerdded ac ansawdd y llwybrau o'r safle;
- Agweddau allweddol ar y ffurf drefol gyfagos gan gynnwys dwyseddau preswyl net ac uchder adeiladau (ceir cyngor ar sut yr ydym yn mesur dwysedd preswyl net ar dudalen 20);
- Unrhyw ardaloedd cymeriad penodol mewn ardaloedd preswyl o amgylch y cynllun, a p'un a sut y gallai hyn ddylanwadu ar ddyluniad. Ceir cyngor ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn datganiad cymeriad isod yn yr adran *"A yw'r dyluniad yn benodol i'r cynllun?" (tudalen 21).*

## Trafnidiaeth a hygyrchedd

- Amlder trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau a mannau aros i brif gyrchfannau;
- Patrwm mynediad drwy'r cyd-destun ehangach i ac ar draws y safle i deithwyr egnïol megis cerddwyr a beicwyr;
- Patrwm mynediad drwy'r cyd-destun ehangach i ac ar draws y safle i ddefnyddwyr cerbydau eraill.

## Nodweddion naturiol a mannau agored

- Topograffeg y safle;
- Cyrsiau dŵr, systemau draenio ac ardaloedd o lifogydd potensial;
- Lleoliad y safle mewn perthynas â'r system dirwedd strategol ehangach, gan gynnwys y prif fannau agored ac ardaloedd o werth ecolegol;
- Lleoliad ac ansawdd y mannau chwarae a meysydd chwaraeon presennol, gan gynnwys mannau chwarae plant lleol a chyrchfan, ardaloedd offer chwarae ieuenctid a mannau agored chwaraeon ffurfiol a hamdden;
- Llwybr yr haul ac unrhyw ardaloedd o gysgodi.

## Proffil cymdeithasol

- Proffil cymdeithasol yr ardaloedd cyfagos;
- Dadansoddiad marchnad o werthiannau diweddar yn yr ardal
- Data map troseddu yn amlygu unrhyw faterion sylweddol.

## Agweddau safle-benodol eraill

Topograffeg y safle, gan nodi pa ardaloedd y gellir adeiladu arnynt a pha rai a allai fod yn anodd;
Cyfleustodau: prif gyflenwad nwy, prif gyflenwad dŵr, peilonau trydan, ceblau ac is-orsafoedd, gan gynnwys unrhyw hawddfreintiau angenrheidiol;
Coed a phlanhigion eraill ar y safle, gan gynnwys pa rai y gellir eu gwarchod a pha rai y gellir eu tynnu ymaith;
Nodweddion hanesyddol: archeoleg, ardaloedd cadwraeth a rhestredig ac adeiladau eraill neu nodweddion eraill sydd i'w cadw;
Golygfeydd penodol a phwysig o a thrwy'r safle i dirnodau lleol pwysig;
Cyfeiriadedd cartrefi cyfagos, gan ddangos eu tu blaen a'u cefnau a rhoi arwydd o ansawdd y cefnau ac unrhyw bwyntiau mynediad perthnasol;
Ffiniau: Math ac ansawdd ffiniau'r safle;
Cyfyngiadau eraill ar y safle: priddoedd wedi'u halogi ac ardaloedd wedi'u llenwi, microhinsawdd a ffynonellau sŵn.

## Cyfleoedd a chyfyngiadau

Dylid crynhoi canlyniadau'r cyd-destun a'r dadansoddiad safle ar fap cyfleoedd a chyfyngiadau, a darparu rhestr o bwyntiau sy'n amlygu sut mae'r arolygon wedi hysbysu'r cysyniad sy'n dod i'r amlwg, a'r dylunio dilynol. Mae map o'r fath a datganiad yn helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi sut yr ydych wedi ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â'r safle a'i gyd-destun. Dylai'r cyfleoedd a gyflwynir ddechrau dangos syniadau diddorol ar gyfer y cynllun.

## Cysyniad dylunio

Bydd cynlluniau mwy yn elwa o baratoi diagram cysyniad dylunio sy'n tynnu sylw at nodweddion dylunio strategol allweddol y cynllun, fel y prif batrwm mynediad, lleoliad canolfannau a defnyddiau heblaw tai, diogelu coridorau gwyrdd neu greu mannau agored a nodweddion tirwedd allweddol, y rhwydwaith o briffyrdd a llwybrau beicio, proffil dwysedd ar draws cynllun, uchder adeiladau, dosbarthiad unrhyw ardaloedd cymeriad a ffurf adeiledig allweddol a nodweddion y treflun. Hefyd dylid cynhyrchu canllawiau ar gyfer pob ardal gymeriad ac unrhyw nodweddion ffurf adeiledig allweddol penodol i hysbysu ceisiadau materion a gadwyd yn ôl.

## Lluniadau dylunio

Dylai lluniadau dylunio gynrychioli'r cynllun yn ei gyd-destun a, lle y bo'n berthnasol, dangos lleoliad a ffurf y datblygiadau cyfagos.
Dylai pob lluniad gael ei dynnu a'i atgynhyrchu ar raddfa a fydd yn galluogi asesiad o gynigion. Dylai cynlluniau fod â saeth gogledd os nad yw brig y ddelwedd yn y gogledd.
Gan ein bod yn edrych ar lawer o luniadau ar wahanol raddfeydd yn electronig, mae'n ddefnyddiol cael bar

graddfa ar y cynlluniau, a/neu ddweud wrthym ar ba raddfa y dylai'r ddelwedd gael ei hargraffu, a'r raddfa berthnasol (e.e. 1:500 @ A1).

### Rhesymeg dylunio

Ar gyfer projectau mwy, dylai lluniau neu ddiagramau sy'n datod nodweddion y cynllun egluro gwahanol agweddau o'r dyluniad. Dylai'r lluniau nodiannu'n glir sut mae'r dyluniad yn ymateb i'r themâu a'r materion a gyflwynwyd yn y canllaw hwn ac sy'n berthnasol i'r safle. Dylai'r rhain ymddangos yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.

### Datganiadau Dylunio a Mynediad

Mae Datganiadau Dylunio a Mynediad (DDM) yn cynnig cyfle sylweddol i esbonio a chyfiawnhau eich dyluniad. Mae'n ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno DDM sy'n dangos ac yn esbonio'r penderfyniadau a arweiniodd at y dyluniad terfynol. Dylid darparu graffig digonol a thystiolaeth ysgrifenedig i lefel o fanylder sy'n dangos sut mae'r cynnig wedi cyflawni dylunio da mewn perthynas â pholisi a chanllawiau dylunio, a hefyd ar gyfer y safle yn ei gyd-destun. Gellir canfod manylion o'r hyn y dylai DDM ei gynnwys a sut y dylid ei gyflwyno yn *Nodyn Cyngor Technegol 12: Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad* (7) Llywodraeth Cymru.

## Ymgynghori ac ymgysylltu


Yn dilyn derbyn ymholiad cyn gwneud cais, rydym yn croesawu trafodaethau neu weithdai sy'n helpu i sefydlu'r paramedrau dylunio yr asesir cais cynllunio yn y dyfodol yn eu herbyn, a chyfle i gynnig cyngor cychwynnol am yr hyn a ellid ei gynnig.  Mae trafodaethau o'r fath yn fwyaf effeithiol pan ddilynir y broses uchod, bod amser wedi ei ganfod ar gyfer dylunio, a darluniau perthnasol wedi cael eu cynhyrchu.

Weithiau gall datblygiadau newydd fod yn ddadleuol gyda phreswylwyr presennol. Dylid hefyd ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â chynghorwyr lleol, grwpiau dinesig a chymunedol a dinasyddion ar gam cynnar o'r broses ddylunio, fel y gall cynlluniau sy'n dod i'r amlwg gael eu llywio gan bryderon a syniadau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu cyngor cyn cyflwyno cais, tra'i bod hefyd yn ofynnol i bob ymgeisydd ar gyfer datblygiadau mawr ymgymryd â chyhoeddusrwydd cyn cyflwyno cais ac ymgynghori ar eu cynlluniau. Gellir canfod manylion am wasanaeth cyn gwneud cais Caerdydd, a'r gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar wefan Cynllunio Cyngor Caerdydd.  Bwriad y prosesau hyn yw codi unrhyw faterion cynllunio sylweddol cyn cyflwyno'r cais ffurfiol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ystyried y materion dan sylw ac, os oes angen, ddiwygio'r cynigion cyn iddynt gael eu gosod ar eu ffurf derfynol a'u cyflwyno fel cais cynllunio.

## Adolygu Dylunio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru

Gellir cyflwyno projectau perthnasol i Wasanaeth Adolygu Dyluniad Comisiwn Dylunio Cymru am sylwadau a chyngor (9). Gwneir hyn orau cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae'r broses hon yn helpu i nodi cyfleoedd cynnar ar gyfer ansawdd dylunio da mewn cynigion datblygu ac mae'n ein cynorthwyo i sicrhau gwerth cyhoeddus drwy ragoriaeth dylunio. Gall  naill ai'r ymgeisydd neu'r Cyngor gychwyn y broses hon. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses hon ar CDC.org.




*9.  Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu ei gyngor ei hun ynglŷn â sut i gyflwyno cynlluniau i'w Wasanaeth Adolygu Dyluniad.*

## Y broses ddylunio anghywir

Weithiau defnyddir prosesau dylunio nad ydynt yn arwain at ddatblygiadau da. Y rhai mwyaf cyffredin yw:

- Peidio cyflogi dylunwyr da o'r cychwyn cyntaf. Rydym yn gwybod bod cynlluniau da yn cael eu cynhyrchu gan ddylunwyr da. Bydd buddsoddi ynddynt yn helpu'r broses ddylunio a chynllunio.
- Defnydd slafaidd o fathau o dai safonol nad ydynt wedi eu dylunio ar gyfer eu defnyddio yn y cynlluniau perthnasol.
- Dyluniad cynlluniau mwy o faint heb unrhyw gyfeiriad at gysyniad clir a fyddai'n llunio'r strwythur cyffredinol a chymeriad y datblygiad.
- Cyflogi dylunwyr trefol i gynhyrchu dyluniad da ar gyfer cais cynllunio amlinellol sy'n sefydlu gwerth safle a'i gynhwysedd, ac yna cyflwyno cynlluniau materion a gadwyd yn ôl sy'n dlotach o ran manylder, weithiau'n defnyddio mathau o dai safonol yn anfeirniadol.
- Peidio â chynnal *Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 1 neu Archwiliad Defnyddwyr Cyfunol* ar gyfer y cynllun amlinellol. Mae'r hepgoriad hwn yn cario'r risg y gallai'r cynllun gynnwys nodweddion sy'n cyflwyno problem diogelwch ar y ffyrdd neu faterion a allai fod yn anodd ac yn gostus i'w cywiro yn ddiweddarach.
- Ar gyfer cynlluniau mwy, cyflwyno cynlluniau amwys sy'n edrych yn argyhoeddiadol yn raffigol, ond nad ydynt yn darparu unrhyw fanylion defnyddiol i arwain neu reoli strwythur neu gymeriad y camau dilynol.
- Dylunio cynlluniau heb ddealltwriaeth ddigonol o safle neu ei gyd-destun.
- Y defnydd o fân newidiadau i wanhau nodweddion o'r caniatâd cynllunio a gynlluniwyd yn dda.

Byddwn  yn gwrthsefyll cynlluniau sy'n dod i'r amlwg drwy'r prosesau hyn a phrosesau tebyg lle'r ydym yn nodi ansawdd gwael neu ansawdd sy'n dirywio o ran dyluniad.

# Crynodeb o'r prif gwestiynau dylunio sydd angen ymdrin â hwy

## Rhan o'r gymdogaeth

- A yw'r datblygiad yn darparu, neu a yw'n agos at gyfleusterau cymdogaethau sy'n gyraeddadwy'n ddiogel drwy gerdded a beicio?
- A oes cymysgedd llety/deiliadaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned leol?
- A oes gan y datblygiad fynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus?
- A yw'r cynllun wedi'i gysylltu'n dda yn fewnol ac i'w gyd-destun?

## Creu llefydd

- A yw'r datblygiad yn gwneud defnydd effeithlon o dir ac yn darparu cartrefi ar ddwysedd rhesymol?
- A yw'r dyluniad yn benodol i'r cynllun?
- A yw'r cynllun yn gwneud defnydd o adeiladau presennol, y dirwedd neu dopograffeg?
- A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn ei gwneud yn hawdd canfod eich ffordd o gwmpas ac yn ffurfio treflun deniadol?
- A yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddigonol o fannau cyhoeddus a gynlluniwyd yn dda?
- A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn helpu i'ch gwneud chi deimlo'n ddiogel a lleihau cyfleoedd i droseddu?
- A oes gan y datblygiad nodweddion sy'n lleihau ei effaith ar yr amgylchedd?

## Stryd a'r cartref

- A yw'r strydoedd a gofodau wedi'u diffinio gan adeiladau a thirwedd fel nad yw priffyrdd yn dominyddu eu cymeriad?
- A yw'r strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u cynllunio gyda phwrpas clir ac i safon sy'n bodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr posibl?
- A yw'r parcio'n ddigonol i breswylwyr ac ymwelwyr ac wedi ei integreiddio'n dda fel nad yw'n dominyddu'r olygfa stryd?
- A yw'r tai unigol wedi'u dylunio'n dda i gwrdd ag anghenion a dyheadau preswylwyr y dyfodol a hefyd mewn perthynas â'u cyd-destun?
- A yw'r dyluniad yn cydymffurfio â'r safonau amwynder angenrheidiol?
- A yw'r dyluniad yn cynnwys cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu digonol a gynlluniwyd yn dda, a gofal o ran lleoliad ac integreiddio cypyrddau mesuryddion?
- A yw'r strydlun yn ddeniadol a chadarn?

# Rhan o’r gymdogaeth

Dylai cartrefi newydd a defnyddiau eraill wella a dod yn rhan o’r gymdogaeth bresennol, neu helpu i greu un newydd nodedig a phoblogaidd. Mae cymdogaethau da yn ganolog i gyfleoedd i fyw bywyd mwy cynaliadwy ac iach.

Gallant leihau’r angen i deithio trwy ddarparu’r rhan fwyaf o’r cyfleusterau a’r gwasanaethau angenrheidiol o fewn pellter cerdded i’n cartrefi. Gall y gymysgedd hon o ddefnyddiau gynnwys siopau cyfleustra wedi’u lleoli yn dda, meddygfeydd, adeiladau cymunedol, mannau agored, meithrinfeydd ac ysgolion cynradd, tafarndai ac adeiladau crefyddol; i gyd yn caniatáu i bobl fodloni eu hanghenion bob dydd heb orfod teithio’n bell o’u cartref.

Dylent hefyd fod yn gymdeithasol gymysg, gan ddarparu ystod o fathau o anheddau a deiliadaethau, ar ystod o ddwyseddau, i sicrhau bodloni ystod lawn o ofynion ac anghenion lleol.

Dylai patrwm y llwybrau flaenoriaethu dewisiadau teithio llesol, gan ei gwneud yn hawdd a chyfleus i gerdded a beicio, o fewn y datblygiad a hefyd i rannau eraill o’r cyd-destun. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r datblygiadau fod yn hydraidd.

Yn olaf, dylai datblygiadau gefnogi’r ddarpariaeth a’r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus trwy ei gwneud yn hawdd ac yn ddiogel mynd i arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi’u lleoli’n dda, gan ganiatáu mynediad cyfleus i breswylwyr i weddill y ddinas, heb fod yn ddibynnol ar gar.



## A yw'r datblygiad yn darparu, neu a yw'n agos at, gyfleusterau cymdogaethau sy'n gyraeddadwy ar hyd llwybrau cerdded a beicio uniongyrchol a diogel?

Fel rhan o ymrwymiad i sicrhau ffurfiau cynaliadwy ac iach o ddatblygu a hyrwyddo ffurfiau llesol o deithio, bydd angen i ddatblygiadau mawr ddarparu cymysgedd da o gyfleusterau o fewn pellter cerdded o gartrefi, tra bydd angen i gynlluniau llai sicrhau eu bod yn cynnwys cynllun sy'n cysylltu'n effeithlon ac yn ddiogel â'r rhai sy'n bodoli'n lleol. Byddwn angen ffurfiau o ddatblygiad a ogwyddir tuag at gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiadau sydd wedi eu lleoli heb fynediad at gyfleusterau digonol yn agos at gartrefi pobl ac sy'n awgrymu y bydd preswylwyr yn y dyfodol yn dibynnu ar gar i gyrraedd y pethau a ddarparwyd yn draddodiadol o fewn pellter cerdded. Byddwn hefyd yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad lle mae'r prif lwybrau i gyfleusterau o'r fath yn anuniongyrchol, anneniadol neu'n teimlo'n anniogel.

Byddwn yn mabwysiadu ystod o fesurau i farnu pellter rhesymol o gartrefi i unrhyw gyfleusterau perthnasol. Defnyddir y pellteroedd hyn fel synnwyr y fawd i farnu cyffiniau naill ai defnyddiau cymdogaeth presennol neu arfaethedig.

### Materion i ymdrin â hwy

Darparu mynediad uniongyrchol i siopau presennol neu newydd a defnyddiau cymdogaeth eraill, ysgolion, cyfleusterau hamdden a mannau agored ar hyd llwybrau cerdded a beicio wedi'u dylunio'n dda.(10). Mae cynllun y datblygiad ac ansawdd y cysylltiadau a ddarperir yn gallu gael effaith sylweddol ar bellteroedd cerdded a dewisiadau teithio pobl.

Gwybodaeth bellach:

- Llywodraeth Cymru (2014) C*anllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru*) 2013
- Cyngor Caerdydd, *Canllaw Dylunio Beicio Caerdydd*
- Sustrans (2014) *Handbook for cycle friendly design*

Darparu mathau mwy dwys o ddatblygiad preswyl yn agosach at ganolfannau cymdogaeth er mwyn darparu digon o bobl leol i gefnogi eu hyfywedd (11 gweler drosodd). Am wybodaeth bellach gweler *Canllaw Dylunio Bywiadwyedd* Cyngor Caerdydd.

Lleoli unrhyw gyfleusterau newydd mewn ardaloedd preswyl ar bellteroedd sy'n caniatáu mynediad hawdd i breswylwyr presennol a newydd ar droed neu ar feic (12). Integreiddio'r cyfleusterau hyn i ffabrig y datblygiad ehangach er mwyn osgoi creu adeiladau ynysig a ddominyddir gan barcio ceir a seilwaith priffyrdd.

Integreiddio'n llawn gartrefi henoed o fewn pellter cerdded diogel i gyfleusterau a gwasanaethau lleol a hefyd drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn helpu i gynnal annibyniaeth preswylwyr.


Dylunio cartrefi mewn perthynas â chanolfannau ardal a lleol neu feysydd siopa fel y gallant gael eu trosi'n hawdd i ddefnyddiau manwerthu neu eraill yn y dyfodol.

*10. Darparu mynediad uniongyrchol i siopau presennol neu newydd a defnyddiau cymdogaeth arall , ysgolion, cyfleusterau hamdden a mannau agored yn cerdded ar hyd dylunio'n dda a llwybrau beicio. Integreiddio yn defnyddio cymdogaeth i mewn i'r rhwydwaith stryd fel eu bod yn gyfleus ac yn gyfforddus i gerdded i'r a rhwng .*






*11. Darparu mathau mwy dwys o ddatblygiad preswyl yn agosach at ganolfannau cymdogaeth ac unrhyw ddarpariaeth manwerthu er mwyn helpu hyfywedd defnyddiau masnachol a thrafnidiaeth gyhoeddus*




*12. Lleoli unrhyw gyfleusterau newydd mewn mannau preswyl ar bellteroedd sy’n caniatáu i breswylwyr presennol a newydd gael mynediad hawdd atynt ar droed neu ar feic. Byddwn yn mabwysiadu’r pellteroedd hyn fel synnwyr y fawd i farnu hygyrchedd safleoedd a phellter at gyfleusterau a gwasanaethau.*

## A oes cymysgedd llety/deiliadaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned leol?

Dylai cynlluniau ddarparu cymysgedd briodol o fathau o anheddau i sefydlu neu gyfrannu at gymuned eang. Er y derbynnir mai rhannau gorau cynllun fydd yn denu'r cartrefi mwyaf mawreddog, dylai dyluniadau'n gyffredinol hefyd arwain at strydoedd sy'n ddall o ran deiliadaeth, fel nad yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng cartrefi sa werthir ar y farchnad, tai fforddiadwy ar rent, a pherchentyaeth cost isel. Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiadau sy'n tynnu sylw at raniadau cymdeithasol trwy ffurf y cynllun neu wahaniaethau sylweddol mewn ymdriniaeth ffasâd neu dirlunio.

### Materion i ymdrin â hwy

Darparu amrywiaeth o fathau o anheddau i sefydlu neu gyfrannu at gymuned gytbwys.

Mae'r Cyngor angen i bob uned rhent fforddiadwy (rhent cymdeithasol a chanolradd ar rent) gwrdd â'r safonau a nodir yng *Ngofynion Ansawdd Datblygu* Llywodraeth Cymru (2005 neu ddiwygiadau dilynol). Bydd dyluniadau hefyd yn sicrhau, er gwaethaf y safonau hyn a'u heffaith, bod pob cartref, waeth beth fo'i ddeiliadaeth, yn cael ei integreiddio i mewn i'r cysyniad dylunio cyffredinol ac yn cael ei orffen yn allanol i safon debyg (13).




*13. Byddwn yn gwrthsefyll tai cymdeithasol neu fforddiadwy nad ydynt wedi'u hintegreiddio'n llyfn i gynllun.*

## A oes gan y datblygiad fynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus?

Mae darparu mynediad cerddwyr at arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n cysylltu cartrefi â gweddill y ddinas, yn ganolog i gefnogi ffurfiau datblygu mwy cynaliadwy a rhoi dewis trafnidiaeth a theithio i breswylwyr. Dylai'r arosfannau hyn gael eu goleuo'n dda, bod yn weladwy o eiddo cyfagos, ac integreiddio i'r strydlun.
Dylai cyfnewidfeydd sylweddol gynnwys man i storio i feiciau fel y gall pobl gyfuno teithiau beiciau a bws. Bydd y Cyngor bob amser yn croesawu cynlluniau arloesol sy'n archwilio ffyrdd o leihau'r defnydd o geir ac effeithiau negyddol ceir ar strydoedd a mannau cyhoeddus.

### Materion i ymdrin â hwy

Macsimeiddio'r nifer o gartrefi ar safleoedd sy'n agos at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus da ac aml, y gellir eu cyrraedd ar hyd llwybr diogel (14).



*14. Dylai datblygiadau facsimeiddio'r nifer o gartrefi ar safleoedd sy'n agos at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus da ac aml.*

Cofleidio prif gysylltiadau a llinellau dymuniad i gyrchfannau a chyfleusterau trafnidiaeth lleol oddi ar y safle.

Hyrwyddo cyfleoedd teithio rhyng-foddol cynaliadwy trwy ddarparu storio beiciau diogel a chysgodol ym mhob cartref neu'n ymyl arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus perthnasol.
Gellir canfod canllaw ychwanegol ar barcio beiciau yn *CCA Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Safonau Parcio*, a chyngor ar ddewisiadau parcio beiciau cyhoeddus yn *Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd*.

Archwilio'r sgôp ar gyfer datblygiadau di-geir a chynlluniau rhannu ceir.



*15. Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad lle nad yw arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi eu hintegreiddio'n llawn i'r cynllun, ac yn gwbl weladwy o eiddo cyfagos.*

Sicrhau bod arosfannau a chysgodfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio i'r cynllun, yn weladwy o eiddo cyfagos, a gyda golau da (15).

Gellir canfod mwy o wybodaeth am ddyluniad arosfannau bws argymelledig *yn Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd.*

# A yw'r cynllun wedi'i gysylltu'n dda yn fewnol ac i'w gyd-destun?

Yn wahanol i ddulliau blaenorol o ddylunio priffyrdd, a oedd yn aml yn arwain at ychydig o ddewisiadau i gerddwyr a llwybrau hirach a weithiau prysurach rhwng rhannau o gymuned, rydym yn awr yn disgwyl i'r patrwm strydoedd osod pwyslais cyfartal ar fodloni gofynion mynediad cerddwyr a beicwyr. Mae cynllun sydd â chysylltiadau da neu hydraidd yn rhoi mwy o ddewis a llwybrau byrrach i gerddwyr a beicwyr. Yn aml, gallant ddewis cerdded neu feicio ar hyd llwybrau gyda llai o draffig. Mae hyn yn helpu i wneud cerdded a beicio yn ddewis cadarnhaol.

Dylai strydoedd yn y cynllun gael eu cysylltu'n dda yn fewnol ac i'w cyd-destun. Dylai llwybrau cyhoeddus hefyd fod yn weladwy o brif ffryntiadau neu ddrychiadau ochr cartrefi a gynlluniwyd yn benodol.

Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad sy'n darparu patrwm gwael o fynediad i unrhyw gategori o ddefnyddiwr, neu lle nad yw llwybrau yn ddiogel.

## Materion i ymdrin â hwy

Cysylltu llwybrau'n uniongyrchol gyda llwybrau troed, llwybrau beicio a ffyrdd cyfagos (16).

Ni ddylai patrymau mynediad arwain at ormod o erddi cefn preifat wedi'u lleoli nesaf at strydoedd a mannau cyhoeddus (17).

Caniatáu ar gyfer mynediad rhesymol at safleoedd datblygu cyfagos yn y dyfodol.

Dylai rhwydweithiau cerdded a beicio fod yn fwy athraidd na'r rhai a ddarperir ar gyfer cerbydau eraill, gan ganiatáu patrymau mynediad uniongyrchol ar gyfer teithio llesol.

Mewn cynlluniau mwy, peidio â defnyddio strwythur bloc a phatrwm mynediad sy'n gwahanu llwybrau cyhoeddus i gerddwyr a beicio oddi wrth ddefnyddwyr eraill y briffordd, megis cynllun Radburn.

Gellir canfod mwy o wybodaeth i gefnogi teithio llesol yng *Nghanllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013* (2014) Llywodraeth Cymru.



*16. Dylai llwybrau newydd gysylltu'n uniongyrchol â llwybrau troed, llwybrau beicio a ffyrdd cyfagos fel y gall cerddwyr a beicwyr gael mynediad uniongyrchol.*



*17. Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad sy'n arwain at ormod o erddi cefn preifat wedi'u lleoli nesaf at strydoedd a mannau cyhoeddus.*

# Creu llefydd

Yn hytrach nag gan arwain at amgylcheddau preswyl annelwig, bydd datblygiadau tai yng Nghaerdydd yn cyfrannu at adeiladu ar, neu sefydlu, llefydd nodedig.

Yn y gorffennol beirniadwyd llawer o ddatblygiadau tai am anwybyddu agweddau ar eu cyd-destun, neu drwy osod dyluniadau priffyrdd a thai safonol.

Mae pobl yn prynu tai, ond rydym eisiau i'r tai hynny fod yn rhan o le gwych. Cynllunnir cartrefi mewn modd sy'n sefydlu llefydd nodedig, amrywiol, deniadol, diogel, a ddefnyddir yn dda, lle mae ystod eang o bobl yn dewis byw, ac a fydd â nodweddion i'w helpu i aros yn gynaliadwy yn economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae llefydd gwych yn deillio o'r meddwl penodol a roddir i ansawdd y gofod rhwng adeiladau, yn hytrach na dim ond dyluniad y cartrefi. Mae cartrefi unigol i gyd yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at ansawdd lle, a dylai datblygiadau: sicrhau bod digon o bobl i gefnogi amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau; ymateb i rinweddau penodol y cyd-destun; cynnwys ystod o strydoedd nodedig a mannau cyhoeddus eraill; bod yn hawdd i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas; bod â threflun deniadol, teimlo'n ddiogel a chynnwys nodweddion dylunio sy'n lleihau effaith y datblygiad ar yr amgylchedd.



# A yw'r datblygiad yn gwneud defnydd effeithlon o dir ac yn darparu cartrefi ar ddwysedd rhesymol?

Mae bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau cymdogaeth a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn dibynnu ar gael nifer dda o gwsmeriaid posibl o fewn eu dalgylch-oedd. Gall mathau o ddatblygiad dwysedd isel leihau eu hyfywedd, ac yn aml arwain at fathau o ddatblygiad llai cynaliadwy na ellir ei gyrraedd yn rhwydd trwy ddulliau teithio llesol. Er mwyn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd siopau a gwasanaethau lleol, byddwn yn croesawu dy-luniadau a all gynyddu dwysedd datblygu o fewn pellter cerdded, lle maent hefyd yn cydymffurfio â'r canllawiau eraill a gyflwynir yma.

Yn ogystal, gall amrywiadau yn nwysedd datblygiad gani-atáu ar gyfer mwy o amrywiaeth yng nghymeriad gofodol a gweledol cynllun, sy'n gallu gwella treflun a helpu pobl i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas.

Nid oes unrhyw berthynas rhwng dwysedd datblygu a gallu cynllun i ddarparu mannau gwyrdd digonol na bodloni safonau amwynder, er y gallai ffurf y mannau gwyrdd amrywio o ddarparu ffurfiau preifat o ardd neu fan agored i ffurfiau mwy casgliadol. Byddwn bob amser yn croesawu dulliau diddorol o ddarparu mannau amwynder.

| Stryd neu ardal | Aneddiadau net fesul hectar * |
|---|---|
| Mewn canolfan ardal amlddefnydd | 45 + |
| O flaen stryd sbin sydd hefyd yn hwyluso cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus â chanolfan ardal | 45 + |
| O fewn 400m i ganolfan ardal | 35 + |
| Rhannau eraill o ardal breswyl | 30 + |

Noda ein *Canllaw Dylunio Bywiadwyedd* y dwyseddau net dymunol i fathau arbennig o ddatblygiad ar draws cym-dogaeth (18). Gweler y modd yr ydym yn cyfrifo dwysedd datblygu net yn Ffigwr 20 (gweler drosodd).

Mae'r shifft o dai i fflatiau fel arfer yn digwydd ar tua 35 annedd yr hectar, a gall cyflwyno fflatiau gael effaith fawr ar nifer yr unedau a roddir ar safle. Mae hyn i'w gael ym Mharc Ninian a Phoenix Way, a ddangosir yn Ffigur 20. I fodloni'r gofynion dwysedd gallai fod angen cyflwyno fflatiau mewn rhai ardaloedd o gynllun.

## Materion i ymdrin â hwy

Darparu dwyseddau preswyl sy'n ddigonol i gefnogi gwasanaethau masnachol lleol, cymunedau a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i gartrefi pobl.

Gall datblygiadau mwy dwys, mwy compact a thal, ynghyd â rhoi sylw manylach ar fanylion dylunio, gael effaith gadarnhaol ar fannau, blaenau a phrif strydoedd allweddol (19).

*18. Dwyseddau datblygu net disgwyliedig ar gyfer ardaloedd gwahanol mewn cymdogaeth yn seiliedig ar bolisïau CDLl ar gyfer safleoedd strategol. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith onid yw ffactorau cymeriad a chyd-destun yn gofyn am ddull gweithredu mwy sensitif.*

* Pan nad yw polisi CDLl yn ffactor gallem ystyried mesur lleoedd gwely yr hectar i gyfiawnhau dwysedd. Pan ystyrir y mesur hwn, byddwn fel arfer yn trin 3 lle gwely fel petaent yn cyfateb i 1 annedd.



*19. Dylid defnyddio dwyseddau uwch i ddiffinio mannau allweddol, ffryntiadau a phrif strydoedd yn gadarnhaol. Newhall, Harlow.*




## 20. Dwyseddau Preswyl Net

Mae dwysedd preswyl net yn gyfartaledd ar draws ardal dai yn unig. Mae'r 'tir a gymerir' ar gyfer yr asesiad yn cynnwys y tir a gymerir ar gyfer tai, gerddi preifat, palmentydd, mân ffyrdd mynediad, parcio ceir a mannau agored 'achlysurol'. Nid yw'n cynnwys tir a ddefnyddir ar gyfer mannau agored cyhoeddus 'arwyddocaol' (1), parciau, mannau chwarae, ysgolion a'u tiroedd (2), a thir neu barcio sy'n gysylltiedig ag adeiladau masnachol (3) neu gymunedol (4).


Os nad yw y ffin yn cynnwys tai ar y ddwy ochr o'r stryd, tynnir y ffin i lawr hanner y briffordd.



**Radyr Siding 29 annedd fesul hectar**



**Phoenix Way 66 annedd fesul hectar**



**Ninian Park 47 annedd fesul hectar**



**Porth Teigr 70 annedd fesul hectar**

## A yw'r dyluniad yn benodol i'r cynllun?

Mae dyluniadau da am sefydlu ardaloedd preswyl unigryw a difyr. Bydd syniadau clir ar gyfer creu llefydd yn llywio syniadau dylunio i strydluniau a thirluniau yn ogystal â sut y caiff tai ac adeiladau eraill eu cyfuno. Rydym yn croesawu'r defnydd o fathau safonol o adeilad pan gânt eu defnyddio a'u haddasu fel eu bod yn addas mewn cynllun a threflun a gynllunnir yn fanwl. Byddwn, yn benodol, yn annog gofal arbennig wrth ymdrin â dylunio trefol mewn lleoliadau pwysig sydd angen triniaeth treflun arbennig. Byddwn yn cefnogi cynlluniau sy'n cael eu llywio gan ddadansoddiad cymeriad trylwyr o'r cyd-destun a'r safle, er nad yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i ddyluniadau ddynwared y rheiny o fewn y cyd-destun. Byddwn yn cefnogi'r defnydd o fathau o adeiladau safonol lle cânt eu defnyddio a'u haddasu i weddu i'w safle mewn cynllun a threflun a ystyriwyd yn ofalus. Rydym yn croesawu arloesedd wrth ddylunio cartrefi lle dangoswyd ymwybyddiaeth o gyd-destun. been demonstrated.

### Materion i ymdrin â hwy

Ceisio osgoi defnydd gormodol o fathau o adeiladau safonol (21). Dylai mathau o dai safonol gael eu grwpio a'u haddasu i weddu i'w safle mewn cynllun a threflun a ystyriwyd yn ofalus.

Cyflwyno'r dyluniad mewn perthynas i'w gyd-destun.

Datblygu gweledigaeth ddylunio glir ar gyfer y datblygiad er mwyn dangos ei ymateb i gymeriad a chyd-destun. Gallai fod yn *gweddu* i ardaloedd o gymeriad da, ac yn enwedig mewn ardaloedd cadwraeth penodol a effeithir gan y cynllun, neu gallai greu hunaniaeth newydd gadarnhaol sy'n ategu un nodwedd bresennol.

Dylai dyluniadau fod yn seiliedig ar gynllun trylwyr ar gyfer y ffurf adeiledig (22 gweler drosodd). Dylai hyn gynnwys syniadau ar gyfer:

- golygfeydd allweddol allan o'r safle (tuag at nodweddion pell a thirweddau) neu drwy safle;
- golygfeydd allweddol a grëwyd o fewn y safle;
- prif ffryntiadau, gan gynnwys awgrymiadau am gymeriad ffurf adeiledig, graddfa'r adeiladau a'u màs, trefniadau parcio (i leihau ei effaith ar y treflun), ffurfiau to, syniadau tirlunio i atgyfnerthu'r cymeriad arbennig gan gynnwys plannu coed, tirlunio meddal a chaled a syniadau am driniaethau ffiniau;
- Lleoedd nodal allweddol i'w diffinio gan dirlun arbennig **a** thriniaethau adeiledig ac o bosibl bydd angen mwy o atebion dylunio pwrpasol;
- llefydd nodol eilaidd i gael eu diffinio gan dirwedd arbennig **a/neu** driniaeth ffurf adeiledig ac angen defnydd gofalus o'r hyn a allai fod yn fathau o dai safonol, wedi'u haddasu i'r gosodiad hwn;
- adeiladau tirnod (a leolir i amrywio'r treflun - i gau golygfa neu greu atalnod);
- corneli allweddol sydd angen adeiladau a gynlluniwyd yn arbennig gyda thriniaeth gyfartal i ddau ffasâd ac nid dim ond ffenestri ar ddau ddrychiad.


Ar gyfer cynlluniau sylweddol byddwn yn disgwyl i'r deunydd hwn gael ei gyflwyno i raddfa ar y cam cais cynllunio amlinellol.

I unrhyw gategori nodwedd a amlygir ar y cam cynllunio amlinellol, dylai canllawiau dylunio penodol, delweddau a lluniau cynsail amlygu triniaeth ddisgwyliedig y nodwedd mewn unrhyw gais materion a gadwyd yn ôl dilynol.



*21. Byddwn yn gwrthwynebu cynlluniau pan fo defnydd gwael o fathau safonol o dai, neu ddiffyg syniadau o ran strydlun, yn creu amgylcheddau di-nod neu ddideimlad.*

*22. Dylai ceisiadau cynllunio amlinellol gynnwys ffurf adeiledig a diagramau tirwedd tebyg i'r isod, sy'n cyflwyno dyluniad gyda'r categorïau pwysig o faterion a ystyriwyd. Bydd hyn yn rhoi hyder i ni y byddwn yn cyflawni rhinweddau penodol yn y cynllun terfynol, fel yr hwn isod, ond yn dal i ganiatáu hyblygrwydd wrth ddatblygu dyluniad manwl. Gweler hefyd y canllaw ar ddatganiadau cymeriad.*



- 3 llawr ayb
- 2.5 llawr
- 2 llawr a strwythur bloc
- Coed treflun (yn nodi maint y sbesimen ar ei lawn dwf)
- Coed heol (hefyd yn nodi maint y sbesimen ar ei lawn dwf)
- Mannau a lleiniau ymyl gwyrdd cyhoeddus
- Adeilad cornel a ddyluniwyd i wynebu dwy stryd
- Mannau nodol gyda phensaernïaeth a thirwedd bwrpasol
- Gofodau eilaidd gyda thirwedd bwrpasol a thai safonol wedi'u haddasu
- Golygfa allweddol mallan o'r safle neu drwy'r safle
- Prif ffryntiad gyda pharcio y tu ôl i'r llinell adeiladu, gofal yn y defnydd o unrhyw fathau o dai safonol, a llinell to ddiddorol
- Golygfa allweddol i adeilad arbennig neu grŵp o adeiladau



Ar gyfer cynlluniau mwy, dylid nodi'r ardaloedd cymeriad ar gynllun perthnasol (23). Dylai fod rhesymeg i'r dewis hwn o ardaloedd sy'n gysylltiedig ag agweddau ar y cynllun. Byddwn yn gwrthsefyll dyluniadau lle na allwn ddeall rhesymeg yr ardaloedd cymeriad mewn perthynas â'r cynllun. Dim ond os yw cymeriad unigryw yn debygol o ddeillio yr ystyrir syniadau ar gyfer ardaloedd cymeriad.

Ar gyfer pob maes a amlygwyd yn y cynllun ardal cymeriad, dylid darparu syniadau dylunio ar gyfer y categorïau o faterion a gyflwynir yn Ffigwr 24, fel sy'n berthnasol.


Hefyd dylid defnyddio delweddau cynsail mewn unrhyw ddatganiad dylunio a mynediad i ddangos agweddau penodol ar unrhyw gynllun, a hefyd eu cysylltu â'r categorïau yn Ffigwr 24. Ni ystyrir bod delweddau cynsail generig nad ydynt yn cysylltu ag agwedd benodol o'r dyluniad yn ddefnyddiol.

Rydym yn disgwyl i fannau moddol allweddol gael eu cyflwyno'n raddol i ddatblygiad mewn ffordd sy'n gwarantu eu nodweddion, naill ai drwy eu cyflwyno ar un tro, neu drwy gymeradwyo cod dylunio sy'n nodi ei nodweddion allweddol.

Dylai lluniau o goed mewn cynlluniau a golygfeydd 3D gynrychioli rhywogaethau coed dethol ar eu huchder tyfiant llawn a chylchedd coron fras, i gadarnhau digonolrwydd y gofod tyfu a ddarparwyd iddynt (22).


Gellir defnyddio codau dylunio i sicrhau gweithredu uwchgynlluniau, bod ansawdd y datblygiad rhwng y camau yn gyson, a bod yr ardaloedd cymeriad a gynlluniwyd yn amlwg (25 gweler drosodd).

*23. Cynllun ardal cymeriad. Ar gyfer pob ardal, dylid cyflwyno agweddau ar y dyluniad sy'n creu cymeriad unigryw a llwyddiannus mewn datganiad cymeriad. Rhestrir yr agweddau o'r dyluniad y gellir eu cyflwyno a'u darlunio yn Ffigwr 24.*




| | |
|---|---|
| **Strydoedd** | Adrannau hierarchaethau stryd a llinellau adeiladu |
| | Ansawdd y prif ffryntiadau (gweler Ffigwr 19) |
| | Strategaeth barcio i breswylwyr ac ymwelwyr, gan gynnwys egwyddorion i leihau effaith parcio ar ffryntiadau amlwg ac integreiddio parcio i mewn i'r strydlun |
| | Dimensiynau adrannau stryd allweddol |
| | Safonau priffyrdd |
| **Plotiau ac adeiladau** | Lled a dyfnder plotiau, gan nodi ardal gardd flaen a chefn |
| | Llinellau adeiladu |
| | Mathau o adeilad |
| | Uchder adeilad |
| | Llinellau a ffurfiau to |
| | Arddulliau adeiladu neu fanylion pensaernïol |
| | Deunyddiau a ddefnyddir mewn tai ac adeiladau ategol |
| | Darpariaeth parcio beiciau |
| | Triniaeth o flychau cyfleustodau |
| | Triniaeth ardaloedd sbwriel |
| | Triniaethau ffiniau - ffrynt, ochr a chefn |
| **Tir y cyhoedd** | Deunyddiau yn y strydlun |
| | Gwarchod coed a gwrychoedd |
| | Mathau ac egwyddorion plannu coed |
| | Dyluniadau tirwedd eraill |
| | Goleuadau |
| | Arwyddion |
| | Celf gyhoeddus |
| **Grwpiau a gofod arbennig** | Triniaeth o olygfeydd a fistâu arbennig, mannau nodol ac eilaidd, ac adeiladau cornel arbennig (Gweler Ffigwr 19) |

*24. Categorïau o fanylion y gellir eu defnyddio i hysbysu datganiadau cymeriad*




*25. Gellir defnyddio codau dylunio i sicrhau gweithredu uwchgynlluniau, bod ansawdd y datblygiad rhwng y camau yn gyson, a bod yr ardaloedd cymeriad a gynlluniwyd yn amlwg (Delweddau: Pegasus Group)*

# Ydy'r cynllun yn integreiddio'n sympathetig ag adeiladau, tirlun neu dopograffeg bresennol?

Mae pob safle datblygu yn wahanol, ac rydym yn disgwyl i ddyluniadau geisio gwella'r gwahaniaeth hwn. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae gan safleoedd nodweddion sydd angen eu diogelu neu rai a allai wella'r cynllun. Mae elfennau o'r fath yn cynnwys topograffeg y tir, nodweddion sy'n darparu cymeriad hanesyddol nodedig neu hunaniaeth, agweddau ar ecoleg a thirwedd gan gynnwys coed, neu olygfeydd i mewn, trwy neu o'r safle.

Mae canllawiau'r llywodraeth genedlaethol yn TAN 5 Natur a Chadwraeth yn mynnu bod datblygiadau yn integreiddio bioamrywiaeth ym mhob penderfyniad cynllunio, yn ogystal â gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Pwysleisia TAN 12 Dylunio bwysigrwydd cyd-destun a dadansoddiad safle o ran tynnu sylw at unrhyw asedau pwysig fel rhagflaenydd i'w gwella mewn dyluniad.

Bydd gweithio gyda neu wella'r agweddau hyn ar y safle yn ychwanegu gwerth at ddatblygiad gan fod y nodweddion hyn yn aml yn bwysig i breswylwyr presennol yr ardal a rhai'r dyfodol, ac yn boblogaidd â hwy. Byddwn yn gwrthsefyll cynlluniau nad ydynt wedi deall a gwerthfawrogi'r agweddau penodol hyn ar safle.

## Materion i ymdrin â hwy

Defnyddio penseiri tirwedd i gynhyrchu strategaeth tirwedd sy'n integreiddio'r cynllun o fewn y cyd-destun o'i amgylch.

Ymateb i ac atgyfnerthu patrymau datblygu arbennig lleol (adeiladau rhestredig (26), ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi hanesyddol) a dynodiadau tirwedd (GCC, SoDdGA, safleoedd o bwysigrwydd i gadwraeth natur).

Ymateb i unrhyw agweddau penodol ar y dopograffeg, naill ai drwy adeiladu ar hyd cyfuchliniau neu, lle bo'n bosibl, creu rhywfaint o ddrama yn y treflun drwy fanteisio ar y llethr.

Diogelu neu wella unrhyw elfennau safle sy'n cyfrannu at gymeriad lleol, lle mae ganddynt ddyfodol cynaliadwy hir dymor fel rhan o'r datblygiad.

Gall tir uchel neu dopograffeg lethrog wneud datblygiad yn amlwg i'r ardaloedd cyfagos ac mae angen dyluniadau arbennig o sensitif mewn achosion o'r fath.

Manteisio ar olygfeydd presennol neu newydd i agweddau deniadol o'r cyd-destun neu nodweddion y cynllun newydd (27 gweler drosodd).

Ategu graddfa a maint ffurfiau adeiledig cyfagos, oni bai y nodwyd bod derbyniad penodol o newid mewn graddfa a maint yn dderbyniol.

Integreiddio coed sefydledig (28 gweler drosodd), gwrychoedd ac elfennau tirwedd eraill y mae'n rhaid eu cadw drwy ddynodiad clir a thriniaeth parthau eco neu barthau clustogi.

Archwilio cyfleoedd i warchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â'i gilydd, a hefyd annog bioamrywiaeth. Gellir diogelu coridorau coetir

*26. Integreiddio unrhyw adeiladau rhestredig neu nodweddion hanesyddol eraill safle i gynllun mewn ffordd dderbyniol*





**27 Bydd dylunio da yn cymryd mantais o’r golygfeydd o safle a thrwy safle**




*28. Integreiddio coed presennol i fannau cyhoeddus newydd*

strategol a effeithir gan drefoli drwy gyflwyno coridorau gwyrdd eang priodol (29).

Byddwn yn sicrhau bod cynefinoedd rhywogaethau a warchodir yn cael eu cynnal a'u gwella o ganlyniad i gynigion datblygu, trwy ddyluniad y cynllun, a chynlluniau ar gyfer rheoli mannau cyhoeddus.

Trawsleoli cynefinoedd yn achos unrhyw rywogaethau a warchodir a effeithir gan ddatblygiad ac na ellir eu cynnwys yn llwyddiannus o fewn safle.

Peidio â chreu darnau tir lletchwith neu rai na ellir eu defnyddio sydd heb swyddogaeth neu werth esthetig amlwg, neu a fydd yn anodd eu rheoli a'u cynnal (30).




*29. Coridorau strategol i fywyd gwyllt*



*30. Dylid dylunio darnau o dir "dros ben" allan o gynlluniau.*

## A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn ei gwneud yn hawdd canfod eich ffordd o gwmpas ac yn ffurfio treflun deniadol?

Dylai ardaloedd preswyl newydd fod yn hawdd i'w deall i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae cymdogaeth sy'n hawdd i'w deall yn tueddu i deimlo'n fwy diogel, tra bydd pobl yn gwybod sut i deithio'n uniongyrchol ar draws ardal ehangach. Mae hyn angen rhwydwaith clir o strydoedd sy'n rhesymol uniongyrchol a nodedig a mannau trefol sy'n ddiddorol, yn groesawgar ac sy'n gyfeillgar i bobl. Caiff pobl eu helpu i lywio eu hunain ar hyd y rhwydwaith hwn lle mae tirnodau nodedig a llefydd canolbwyntiol, golygfeydd cofiadwy, gweithiau celf ac arwyddion mewn llecynnau da. Ar y llaw arall, gall tai aneglur neu hyd yn oed waliau neu ffensys ar hyd ffyrdd safonol sy'n ffurfio ffordd bengaead droellog ei gwneud i deimlo'n llai diogel tra hefyd yn anos gwybod ble rydych chi neu lle efallai mae'r llwybr yn mynd. Weithiau dylid trin dyluniad adeiladau a'r gofod trefol mewn cyffyrdd allweddol gyda gofal arbennig. Y rhain yw'r pwyntiau lle mae pobl angen gwybod ble y maent, tra dylai dyluniad yr amgylchedd ddarparu cyfeiriadedd i'r mannau lle mae pobl eisiau mynd.

Byddwn yn gwrthsefyll datblygiadau sydd yn arwain at gymeriad aneglur neu di-leoliad, a lle y credir y gallai pobl fynd ar goll yn hawdd.

Mae'r treflun preswyl yn cael ei bennu gan sut y caiff adeiladau ac agweddau ar y dirwedd eu grwpio i ffurfio gwahanol olygfeydd, a chreu gwahanol lefydd mewn cynllun. Hefyd dylanwadir ar ansawdd y treflun gan rai agweddau o'r dirwedd allanol a manylion pensaernïol a drafodir pan edrychwn yn fanylach ar ddyluniad cartrefi a'r strydluniau.

Gall golygfeydd, fistâu a'r mannau dilynol fod â chyfan-soddiad da a deniadol, neu'n rhai a ystyriwyd yn wael ac anhrefnus, neu hyd yn oed yn ddiflas. Bydd treflun da yn arwain at lefydd unigryw a chofiadwy mewn cynl-lun. Mae meddwl am y treflun yn draddodiad sefydledig mewn dylunio trefol. Mae deall golygfeydd allweddol angen delweddau sy'n dangos agweddau tri dimensiwn o ddyluniad o safbwynt y defnyddiwr. Nid yw cynlluniau a drychiadau arferol bob amser yn mynegi'n glir yr hyn y bydd pobl yn ei weld mewn mannau. Nid yw golygfeydd 3D o'r awyr yn dangos i ni dystiolaeth o'r hyn y bydd pobl yn ei weld o lefel y ddaear. Dylid defnyddio golygfeydd lefel stryd da i ddylunio'r hyn a brofir ar raddfa ddynol, hyd yn oed mewn datblygiadau a allai gynnwys adeiladau mawr.

Mae gan Gaerdydd eisoes lawer o drefluniau deniadol, ond nid yw diddordeb mewn treflun angen ail-greu ffurfiau traddodiadol neu sefydledig. Byddwn yn annog naill ai drefluniau traddodiadol neu gyfoes sy'n manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer creu ymdeimlad o le a roddir yn y *Llawlyfr Strydoedd.*


Bydd llefydd sydd heb hynodrwydd a diddordeb yn llai poblogaidd a gallent fod yn llai diddorol i gerdded neu hyd yn oed feicio o'u hamgylch. Mae llefydd diflas yn gwneud i hyd yn oed deithiau byr deimlo'n hirach. Fel rhan o ymrwymiad ehangach i gefnogi teithio llesol, rhaid i ni sicrhau bod llwybrau cerdded yn ddeniadol fel bod cerdded yn dod yn ddewis cadarnhaol.
Mae treflun da yn cynnwys syniadau am y golygfeydd a llefydd strategol i'w cyflwyno i'r cynllun, ond gall hefyd olygu meddwl am sut y mae tai yn cael eu grwpio gyda'i gilydd. Byddwn yn sicrhau bod tai safonol, yn arbennig, yn cael eu defnyddio a'u haddasu i greu treflun ystyrlon.

## Materion i ymdrin â hwy

Cysylltu ardaloedd preswyl newydd i ddefnyddiau allweddol, cyfleusterau a mannau agored yn yr anheddiad sefydledig trwy lwybrau uniongyrchol ac eglur sy'n weladwy ac wedi'u goleuo'n dda.

Sefydlu patrwm uniongyrchol a chysylltiedig o strydoedd a mannau ar gyfer cerddwyr a beicwyr o fewn y cynllun.

Dylunio'r adrannau stryd i sefydlu hierarchaeth ofodol sy'n caniatáu i statws strydoedd gael eu hadlewyrchu yn eu ffurf, tra'n creu amrywiaeth yn y cynllun (31).




*31. Bydd rhannau stryd amrywiol yn sefydlu hierarchaeth ofodol*

Fframio strydoedd a mannau cyhoeddus gyda ffasadau adeiladau allweddol a ffryntiadau gweithredol, nid waliau a ffensys, i helpu eu hamlygu fel llefydd nodedig a chynnal gweledededd.


Integreiddio golygfeydd allweddol yn y dyluniad tuag at adeiladau tirnod sylweddol neu nodweddion naill ai'r tu allan neu'r tu mewn i'r safle. Bydd y rhain yn cael eu nodi mewn safle a chyd-destun dadansoddiad trylwyr.

Lleoli a dylunio unrhyw ystafell marchnata a chartrefi fel nad ydynt yn effeithio ar uniondeb dylunio tymor hir unrhyw stryd neu ofod amlwg.

Defnyddio newidiadau mewn graddfa a màs adeiladau, neu elfennau o adeilad, i amlygu llefydd a chroesffyrdd pwysig (32).

Defnyddio defnyddiau allweddol neu greu grwpiau adeiladu, golygfeydd, nodweddion porth a thirnod arbennig i gynorthwyo canfyddiad ffordd drwy sefydlu treflun cofiadwy ar bwyntiau allweddol yn y cynllun (32).

Lleoli mannau trefol nodedig mewn datblygiad ar bwyntiau ffocal a grëwyd gan y patrwm mynediad. Gall pobl eu defnyddio i leoli eu hunain, gallant ffurfio canolbwynt cymdeithasol i breswylwyr o grŵp o strydoedd, a gallant ddarparu rhan o gynllun Draenio Trefol Cynaliadwy, coed mwy, a chyfleusterau chwarae lleol hefyd o bosibl (32).




*32. Gall pwyntiau allweddol mewn cynllun, lle mae llwybrau pwysig yn cyfarfod, fod yn lleoliad ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol a chymdogaeth, gofod cyhoeddus amlwg, ac adeiladau yn ffurfio treflun unigryw*

Dylai'r berthynas rhwng strydoedd a mannau cyhoeddus a chartrefi fod mor uniongyrchol a syml â phosibl i breswylwyr ac ymwelwyr, fel y gall pobl ddod o hyd yn hawdd i ddrysau ffrynt.

Dylai'r mynediad i'r blociau fflatiau hyn fod yn weladwy ac yn groesawgar. Dylai hefyd fod modd nodi blociau fflatiau gydag arwyddion clir yn cynnig rhifau neu enwau blociau.

Sicrhau paratoi golygfa lefel cerddwyr o'r treflun fel y gellir deall ac addasu'r cymeriad treflun.

Dylunio adeiladau ar gorneli amlwg i adlewyrchu eu safle mewn cynllun. Sicrhau bod ganddynt raddfa a maint addas, gyda ffasadau sy'n cyfateb o ran deunyddiau a manylder, a ffenestri sy'n cynnig gwyliadwriaeth ddigonol o'r ddwy stryd (33 gweler drosodd).

Cau neu atalnodi golygfeydd arwyddocaol trwy gynllun gydag adeiladau neu dirlunio a gynlluniwyd yn arbennig (34 gweler drosodd).



*33. Dylai adeiladau ar gorneli sylweddol gael eu cynllunio i fod â rhywfaint o amlygrwydd, tra hefyd bod â chynllun a ffasâd sy'n cynnig triniaeth ffryntiad pan welir hwy o'r naill stryd neu'r llall. Ingress Park, Greenhithe.*



*34. Cau neu atalnodi golygfeydd arwyddocaol trwy gynllun gydag adeiladau neu dirlunio a gynlluniwyd yn arbennig*



*35*

Sicrhau bod triniaethau tirlunio a ffiniau yn lleihau effaith parcio ar ffryntiad mewn golygfeydd stryd (35).

Osgoi ffensys gyda byrddau clos ar ffiniau sy'n wynebu mannau cyhoeddus a mannau parcio gan eu bod yn edrych yn wael (36a). Defnyddio atebion mwy deniadol (36b).



*36a*



*36b*

## A yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddigonol o fannau cyhoeddus a gynlluniwyd yn dda?

Dylai penseiri tirlun ddylunio mannau cyhoeddus. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gwybod sut y dylid ymdrin â dyluniad mannau cyhoeddus. Maent yn deall bod gofod cyhoeddus o ansawdd da yn ganolog i fodlonrwydd preswylwyr gyda'u cymdogaeth. Mae mannau cyhoeddus yn cynnwys strydoedd, ond hefyd mathau eraill o fannau trefol neu wyrdd, gan gynnwys mannau chwarae. Gall eu hansawdd wneud cerdded a beicio yn bleser, a thrwy hynny gefnogi ffyrdd iachach o fyw. Gallant atgyfnerthu ymdeimlad o le, hunaniaeth leol a balchder, a gallant helpu pobl i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Maent yn un o'r llefydd lle bydd cymdogion yn cyfarfod.

Yn y gorffennol yr oedd llwyddiant mannau cyhoeddus yn cael ei farnu weithiau yn ôl faint a ddarparwyd. Heddiw, rydym yn gwybod na fu gorddarpariaeth o fannau cyhoeddus a gynlluniwyd yn wael yn llwyddiannus, ac felly mae gennym ddiddordeb mewn sicrhau'r maint cywir, ond hefyd sicrhau ei fod o ansawdd da, gyda chynlluniau ar gyfer ei ddefnydd parhaus, ei reoli, a'i gynnal a'i gadw.

Gellir gweld safonau ar gyfer darparu gwahanol fathau o fannau agored mewn datblygiadau preswyl newydd yn y bennod berthnasol o'r CCA Seilwaith Gwyrdd. Fodd bynnag, nid yw pryder am safonau yn ddigon.




*37. Egwyddorion ar gyfer hysbysu a gwerthuso dyluniad mannau cyhoeddus mewn ardaloedd preswyl. Addaswyd o* 12 Quality Criteria*, Gehl Architects.*

Mae gwahanol fathau a chymeriad gofod cyhoeddus wrth wraidd y broses o greu lle. Byddwn yn disgwyl i ddylunio ar gyfer cynlluniau mwy gyflwyno amrywiaeth o leoliadau a mannau preswyl er mwyn rhoi cymeriad i rannau o gynllun, yn ogystal â chynnwys amrywiaeth o fathau o fannau agored. Mae'n rhaid i fannau cyhoeddus allweddol gael eu lleoli'n briodol, yn hytrach na deillio o le dros ben ar ôl lleoli priffyrdd a chartrefi.

Dylai mannau cyhoeddus gael eu dylunio i gyfuno swyddogaethau ecolegol, gweledol neu gymdeithasol yn llwyddiannus. O ganlyniad, byddwn hefyd yn barnu dyluniad gofodau yn erbyn set gyson o egwyddorion a fydd yn sicrhau bod yr holl lefydd yn fannau diogel, iach a chyfforddus, a hefyd yn rhoi gofod y gall preswylwyr ei fwynhau (37).


Rhaid i ofod gael ei gynllunio i fod a theimlo'n ddiogel, a diogelu preswylwyr rhag unrhyw effeithiau annymunol y gellid ei deimlo o gyd-destun safle. Dylid ei gynllunio i ganiatáu defnydd ar gyfer teithio llesol, eistedd a chymdeithasu.

Mae teuluoedd yn awyddus i wybod bod eu cymunedau yn cynnwys ardaloedd chwarae addas, a dylid integreiddio hierarchaeth mannau chwarae i blant ifanc a rhai yn eu harddegau i mewn i ddyluniad i sicrhau bod cyfleoedd i bob oed a gallu mewn mannau cyfleus, diogel, hygyrch a deniadol sy'n weladwy ac na fyddant yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Dylai'r mannau hyn adlewyrchu'r meddylfryd cyfredol a bod o ansawdd uchel i ddenu plant a theuluoedd a dod yn rhan werthfawr o'r amgylchedd lleol. Ni fydd mannau o ansawdd gwael neu ddiddychymyg yn ddeniadol i bobl ifanc, yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned leol, a gallent gael eu gadael yn wag.

Dylai graddfa'r mannau trefol fod ar raddfa ddynol, gyda phryder am y dirwedd galed ac ecolegol. Dylai manylion gofod fod yn gadarn ac yn ddeniadol a dylai dyluniadau gefnogi patrymau cynaliadwy o ddraenio, diogelu asedau naturiol pwysig ac fel arall hyrwyddo bioamrywiaeth. Byddwn yn gwneud defnydd o gyngor arbenigol ynghylch ecoleg a choed, a rhoddir sylw arbennig i warchod coed o ansawdd da presennol a chanfod gofod ar gyfer coed mawr newydd yn y datblygiadau.

Dylid datblygu gofodau wrth i gartrefi gael eu hadeiladu, a byddwn yn ceisio sicrhau bod cyflwyniad graddol y datblygiad ehangach yn gofalu am hyn.

Yn olaf, byddwn eisiau sicrhau bod cynlluniau cynaliadwy yn eu lle ar gyfer rheoli a chynnal a chadw mannau cyhoeddus yn y dyfodol.




*38. Dylai datblygiadau gael eu cynllunio o amgylch syniadau ar gyfer llefydd pendant o fewn cynllun. Bydd cynlluniau a ddominyddir yn gyfan gwbl gan gymeriad priffyrdd yn cael eu gwrthwynebu.*



*39. Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad nad ydynt yn wynebu mannau cyhoeddus cymdogol*

## Materion i ymdrin â hwy

Bydd dyluniadau yn dangos sut y cynhwysir ystod o fannau trefol o fewn y ffurf adeiledig (38).

Dylunio tirlunio er mwyn cynnal llinellau gweld ar draws gofodau cyhoeddus a darparu rhywfaint o welededd ohonynt o gartrefi cyfagos. Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad nad ydynt yn wynebu mannau cyhoeddus cyfagos (39). Dylid osgoi mannau agored sydd wedi eu cuddio yng nghornel y safle, neu sydd â thai gyda ffensys terfyn uchel yn cefnu arnynt, gan fod hyn yn aml yn arwain at broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol tymor hir. Gwelir mannau agored sydd allan o'r golwg ac yn anodd mynd iddynt fel bygythiad yn hytrach nag ased cadarnhaol gan breswylwyr. Y nod dylunio allweddol yw creu ymdeimlad o berchnogaeth a diogelwch.

Dylai'r ceisiadau paramedrau tirlun/seilwaith gwyrdd amlinellol nodi'n glir gysyniadau mannau agored strategol a seilwaith gwyrdd y gellir eu dwyn ymlaen i geisiadau materion a gadwyd yn ôl. Dylai cynlluniau o'r fath nodi amcanion ar gyfer ardaloedd a llwybrau gwahanol ac ystyried gwaith rheoli hirdymor. Gallai hyn gynnwys ardaloedd i reolwyr cartrefi / cymunedol.

Dylid rhoi sylw i'r microhinsawdd dilynol ym mhob man agored cynlluniedig i sicrhau na fydd effeithiau a ragwelir o wynt a chysgod yn effeithio ar y defnydd arfaethedig o lefydd.

Darperir cynlluniau goleuo sy'n gwella'r teimlad o ddiogelwch ym mhob ardal gyhoeddus o ddatblygiad.

Er bod amodau eithafol yn weddol brin, byddwn yn awyddus i sicrhau nad yw mannau agored yn cael eu heffeithio'n ddrwg gan amodau agored, ac yn enwedig traffig, llygredd a sŵn. Lleolir y mannau i gynnig amodau amgylcheddol ardderchog ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol.

Dylai mannau cymdogaeth caled gael eu darparu ar raddfa ddynol. Awgrymodd ymchwil y gall mannau sy'n fwy na 60 metr ddechrau teimlo'n rhy fawr. Gall mannau cyhoeddus rhy fawr rhwng adeiladau deimlo'n beryglus ac anhysbys. Synnwyr y fawd yw y dylai mannau gael eu dylunio fel y gall pobl mewn eiddo cyfagos adnabod y bobl sy'n mynd a dod ar draws y gofod. Gelwir hyn yn bellter cymdeithasol. Ni ddylai codi adeiladau preswyl dwys ac uchel arwain at fannau cymdogaeth rhy fawr.

Bydd mynediad i ardaloedd o ofod cyhoeddus yn lleihau effaith traffig drwy ddyluniadau priffyrdd priodol, gan ddarparu triniaethau sy'n caniatáu mynediad annibynnol heb angen goruchwyliaeth rhieni i blant ifanc. (40).

Oni bai y pennir fel arall gan nodweddion safle naturiol, dylid gosod y prif fan agored yn ganolog, neu lle mae'n hawdd ei chyrraedd o bob rhan o'r datblygiad newydd a, lle bo'n briodol, datblygiadau cyfagos eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn ganolbwynt, yn helpu i gyfeiriadu ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r datblygiad, ac annog defnydd gan y gymuned gyfan.

Dylai dyluniadau ar gyfer mannau agored roi cyfrif am sut y maent yn darparu ystod o weithgareddau a buddiannau i ystod eang o breswylwyr, yn unol â'r themâu a gyflwynwyd yn Ffigwr 37. Dylai'r man agored fod yn aml-swyddogaethol a hyblyg i gymryd i ystyriaeth





*40. Dylid dylunio priffyrdd i ganiatáu mynediad i blant ifanc i fannau agored a chwarae heb oruchwyliaeth rhieni. Gweithredir canllawiau diweddar yn y Llawlyfr Strydoedd er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd. Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos atebion gofod a rennir.*

wahanol anghenion y rhai sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardal.

Dylai mannau agored ymgorffori gwytnwch i newid yn yr hinsawdd, gan ddarparu lliniaru llifogydd ar adeg digwyddiadau eithafol i ddiogelu'r adeiladau a seilwaith o amgylch. Fodd bynnag, prif swyddogaeth man agored yw bod yn ofod y gellir ei ddefnyddio'n weithredol ar gyfer hamdden, gyda chyflwr daear wedi'i ddraenio'n dda, sy'n caniatáu draenio ac adfer yn dda ar ôl tywydd eithafol.

Dylai cynlluniau ddarparu ar gyfer cyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol yn unol â gofynion y CCA Seilwaith Gwyrdd, a dylid dylunio mannau chwarae yn unol â'r meddylfryd cyfredol.
Ceir canllaw pellach ar y ddarpariaeth a dylunio mannau agored a chwarae yn:

- CCA Seilwaith Gwyrdd (ar y gweill)
- Chwaraecymru.org.uk
- Play England (2008) *Design for Play*

O fewn man agored, dylai'r ardaloedd mwyaf gweithgar (e.e. ardaloedd chwarae, ardaloedd ieuenctid, seddau) fod mewn lleoliadau amlwg iawn, ond yn ddigon pell oddi wrth eiddo i leihau tarfu.

Mae coed yn nodwedd boblogaidd o strydluniau y mae'n rhaid eu lleoli mewn mannau addas i gael effaith ecolegol a threflun. Dylai plannu coed gael ystyriaeth briodol yn ystod y camau cynllunio cynnar yn hytrach na chael eu trin fel ôl-ystyriaeth.
Ceir canllaw pellach ar blannu coed yn:

- *rhan berthnasol y CCA Seilwaith Gwyrdd (ar y gweill)*
- *Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd*

Dylai dyluniadau ddangos sut y gallant gynnwys coed rhodfa a choed enghreifftiol mawr, a dylai cynlluniau ac adrannau gynnwys darpariaeth o ofod plannu a thyfu i'r holl fathau perthnasol a ddewisir (41).

Byddai'n well gennym gynlluniau sy'n darparu ar gyfer nifer o goed mawr, hirhoedlog wedi'u plannu mewn gwelyau "*addas i'r diben*", yn hytrach na nifer fwy o goed bach neu goed pigfain, sydd wedi'u gwasgu'u mewn lle bynnag y ceir lle dros ben.

Os nad yw mannau cyhoeddus yn cael eu cynnig i'w mabwysiadu, yna sicrheir strategaeth hyfyw ar gyfer eu rheoli a'u cynnal a'u chadw drwy amod cynllunio a chytundeb cyfreithiol.

Lle bo angen, dylid gweithredu mannau agored yn raddol wrth gwblhau cartrefi newydd cyfagos er mwyn sicrhau bod mannau agored yn cael eu creu wrth i'r gymuned ddatblygu, yn hytrach na'u gadael tan y diwedd.

Dylai triniaethau gael eu llywio gan *Lawlyfr Tir y cyhoedd* mabwysiedig Caerdydd, sy'n rhoi cyngor manwl ynghylch sut i ymdrin â dyluniad y dirwedd gyhoeddus, gan gynnwys strydoedd mewn ardaloedd preswyl.




*41. Dylai cynlluniau ac adrannau ddangos sut y bydd coron coeden a thwf gwreiddiau yn cael eu cynnwys yn y mannau tyfu perthnasol.*

## A yw'r adeiladau a'r gosodiad yn helpu i'ch gwneud chi deimlo'n ddiogel a lleihau cyfleoedd i droseddu?

Mae'n hysbys bod ardaloedd preswyl yn gallu helpu pobl i deimlo'n ddiogel a lleihau'r cyfleoedd i droseddu.

Mae pedair nodwedd yn helpu i gyflawni hyn:

- bywiogrwydd neu fynd a dod gan gymdogion a'r cyhoedd sy'n golygu bod yna bobl a all gadw llygad ar bethau.
- gwahaniaeth clir ac effeithiol rhwng mannau cyhoeddus a mwy preifat sy'n golygu bod pobl yn gwybod lle mae hawl mynediad neu reolaeth.
- yr olygfa o gartrefi cyfagos ar yr holl fannau cyhoeddus drwy ffenestri, goleuadau a dylunio tirwedd da, sy'n golygu bod pobl yn teimlo'n ddiogel, tra gallai troseddwyr posibl deimlo eu bod yn cael eu gwylio
- Llwybrau troed ag agwedd agored y gellir eu gweld o gartrefi cyfagos sy'n golygu y bydd gwyliadwriaeth o bob ardal o ofod cyhoeddus, ac y bydd pobl yn teimlo'n ddiogel.

Byddwn yn cefnogi cynlluniau sydd â'r nodweddion hyn, ac yn gwrthsefyll dyluniadau sy'n arwain at i lefydd deimlo'n anniogel neu greu mannau troseddu problemus. Gellir cael cyngor pellach ar y mater hwn o wefan Secured by Design (securedbydesign.com) lle mae cyngor manwl am ddylunio cartrefi a mannau preswyl newydd.

Fel rhan o ymrwymiad ehangach i gefnogi teithio llesol, rhaid i ni hefyd sicrhau bod llwybrau cerdded a beicio yn teimlo'n ddiogel gydol yr amser, fel bod cerdded a beicio yn dod yn ddewis cadarnhaol.

### Materion i ymdrin â hwy


Dylai'r rhwydwaith o strydoedd a llwybrau cyhoeddus eraill fod yn uniongyrchol ac yn weledol agored, ac mewn rhwydwaith a fydd yn annog lefelau da o ddefnydd gydol y dydd, gan gymysgu cerddwyr a defnyddwyr cerbydau mewn modd diogel (42).

Bydd modd gweld llwybrau troed a mannau parcio o ystafelloedd cyfanheddol.





*42. Dylai rhwydweithiau fod yn uniongyrchol ac yn weledol agored, gyda chartrefi yn wynebu ac yn edrych allan ar y prif lwybrau cyhoeddus i'r holl ddefnyddwyr.*




*43. Cynnal gwahaniaeth clir rhwng gofod cyhoeddus a phreifat mewn strwythur bloc dilynol*



*44. Lleoli mesuryddion cyfleustodau ar dir y cyhoedd, ond nid fel nodwedd amlwg ar wyneb yr adeilad*

Cynnal gwahaniaeth clir rhwng ardaloedd cyhoeddus a phreifat drwy ddyluniad cynllun, gyda llwybrau cyhoeddus ar flaen y tai. Ni ddylai'r patrwm athreiddedd arwain at ormod o lwybrau cyhoeddus yng nghefn yr eiddo (43).

Os na ellir osgoi llwybrau wedi'u gwahanu, dylid eu goleuo'n dda a bod â llinellau safle da ar eu hyd i osgoi cuddfannau posibl.

Lleoli mesuryddion cyfleustodau ar dir y cyhoedd, ond nid fel nodwedd amlwg ar wyneb yr adeilad (44).

Byddwn yn gwrthsefyll dyluniadau sy'n arwain at ardaloedd cyhoeddus o ddatblygiad gyda chorneli dall, a allai wneud i ddefnyddwyr deimlo'n bryderus (45).

Lle'r awgrymir alïau fel ffurf atodol o fynediad, byddwn yn disgwyl iddynt fod ag adwy a'u rheoli gan breswylwyr os oes mesurau gofod amddiffynadwy annigonol fel arall, megis gwyliadwriaeth uniongyrchol o'r llwybr o gartrefi cyfagos (46).

Ni dderbynnir cymunedau adwyog os ydynt yn cael effaith negyddol ar athreiddedd rhesymol ardal ehangach neu'n arwain at wyliadwriaeth wael o strydoedd a mannau cyhoeddus cyfagos.



*45. Byddwn yn gwrthsefyll dyluniadau sy'n arwain at ardaloedd cyhoeddus o ddatblygiad gyda chorneli dall.*



*46. Pan fo alïau yn nodwedd angenrheidiol o ddyluniad, byddwn yn disgwyl iddynt fod ag adwy a'u rheoli gan breswylwyr os nad edrychir drostynt.*

## A oes gan y datblygiad nodweddion sy'n lleihau ei effaith ar yr amgylchedd?

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn disgwyl i'r system gynllunio ddarparu cartrefi ac adeiladau newydd mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd. Esbonnir hyn yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru (2014) *Canllaw Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy*. Mae cynlluniau a ddyluniwyd yn dda yn effeithlon o ran ynni ac yn lleihau neu hyd yn oed wella eu heffaith oes ar yr amgylchedd naturiol. Mae cartrefi a datblygiadau sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy: angen cyn lleied o ynni â phosibl ac yn manteisio ar ffynonellau ynni adnewyddadwy; rheoli'n gynaliadwy'r defnydd o ddŵr o fewn ac oddi ar y safle; a chynnwys strategaeth tirlunio sy'n edrych ar y potensial i gynnal a datblygu bioamrywiaeth ar y safle. Mae datblygiadau mawr o fwy na 100 o anheddau yn arbennig angen archwilio sut y gellir defnyddio technolegau carbon isel ac ynni adnewyddadwy o fewn eu cynlluniau.

### Materion i ymdrin â hwy

Darparu cynllun sy'n gwneud y gorau o ynni solar ar gyfer cartrefi drwy sicrhau bod y prif mannau byw yn elwa o agwedd ddeheuol (47).

Defnyddio dyluniadau sy'n lleihau'r galw am ynni a chynnwys ffynonellau ynni amgen neu adnewyddadwy yn y datblygiad.

Bydd angen i ddatblygiadau mawr o fwy na 100 o anheddau gyflwyno asesiad ynni annibynnol sy'n ymchwilio i hyfywedd ariannol ac ymarferoldeb technegol ymgorffori technolegau adnewyddadwy a charbon isel yn eu cynllun, yn unol â pholisi EN12 *Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.*

Mabwysiadu strategaeth effeithlonrwydd dŵr ac archwilio cyfleoedd i gynnwys casglu dŵr glaw, systemau ailgylchu dŵr llwyd a thoeau gwyrdd.

Lleihau ddŵr ffo o arwynebau wedi'u selio fel tramwyfeydd a llwybrau.

Integreiddio system Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) i mewn i gynllun y safle, er mwyn rheoli dŵr ffo wyneb, ac felly lleihau'r risgiau o lifogydd, hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu ased amwynder gwerthfawr (48).

Amlygu "coridorau glas" mewn cyfnod cychwynnol o ddadansoddi a dylunio, er mwyn rhoi cyfrif priodol am lwybrau llif dŵr wyneb a'r gofod sydd ei angen i gynnwys unrhyw wanhau dŵr yn y dyfodol.
Bydd angen i gynlluniau draenio wanhau cyfeintiau o ddŵr i ddarparu ar gyfer digwyddiadau glawiad 1 mewn 100 mlynedd, yn ogystal â lwfans newid hinsawdd o 30%, tra'n aros am gytundeb. Bydd angen rhoi cyfrif am y cyfaint sylweddol hwn yng nghynllun y datblygiad, ac yn ddelfrydol gyda gwanhau uwchlaw'r ddaear.

Gellir canfod canllaw diweddar ar SuDS yn *Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru* (2016) Llywodraeth Cymru. Ceir mwy o gyngor ar SuDS yng Nghaerdydd yn CCA *Seilwaith Gwyrdd* ac mewn CCA ar y pwnc sydd ar y gweill.



*47. Gall cartrefi sydd wedi'u dylunio a'u lleoli i wneud y gorau o enillion solar gymryd sawl ffurf.*

Bydd angen ystyried mabwysiadu cynlluniau draenio cynaliadwy ar y cam cyn gwneud cais ac argymhellir cynnal sgyrsiau cynnar gyda'r Cyngor a Dŵr Cymru/Welsh Water er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol i'r corff perthnasol ac yr amlinellir y cytundebau mabwysiadu perthnasol mewn egwyddor.

Cynnwys strategaeth tirlunio a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth yn seiliedig ar rywogaethau brodorol (49). Gellir canfod cyngor da ar ddylunio ar gyfer bioamrywiaeth mewn mannau eraill. Gweler er enghraifft: Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (2004) *Biodiversity by Design: a guide to sustainable communities*, neu Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (2012) P*lanning for a healthy environment - good practice for green infrastructure and biodiversity.*



*48. Byddwn yn croesawu datblygiadau sy'n integreiddio draenio trefol cynaliadwy a ddyluniwyd i fod yn nodwedd ddeniadol a diddorol o'r amgylchedd.*



*49. Byddwn yn croesawu tirweddau preswyl a ddyluniwyd ac a reolir i hyrwyddo bioamrywiaeth.*

# Stryd a’r cartref

Ar lefel fanwl, mae cartrefi newydd yn cyfrannu at ffurfio strydoedd a mathau eraill o ofod trefol, tra’u bod hefyd yn cael effaith ar gartrefi eraill yn eu cyd-destun agosaf. Ar y raddfa hon, rydym eisiau gweld syniadau ar gyfer cymeriad strydoedd a mannau agored trwy gonsyrn am agweddau manwl o’r treflun newydd. Rydym eisiau sicrhau bod mannau cyhoeddus i gyd yn gynhwysol, ac yn rhoi mynediad diogel a hwylus i bawb. Rydym eisiau sicrhau bod digon o fannau parcio ceir a beiciau, sydd angen eu dylunio’n dda i mewn i gynllun. Dylai cynlluniau gydymffurfio â safonau ar gyfer preifatrwydd ac amwynder. Dylai cartrefi ddarparu cyfleusterau digonol ar gyfer rheoli gwastraff ac ailgylchu. Dylai’r strydluniau dilynol fod yn gadarn ac yn ddeniadol.



## A yw'r strydoedd a gofod wedi'u diffinio gan adeiladau a thirwedd fel nad yw priffyrdd yn dominyddu eu cymeriad?


Dylunnir ein strydoedd a mathau eraill o ofod cyhoeddus i fod yn llefydd arbennig lle gall preswylwyr fwynhau ansawdd bywyd da. Byddant yn cael eu dylunio ar gyfer pob defnyddiwr stryd a dylent gael eu hystyried fel mannau cymdeithasol sy'n cynnwys cymysgedd o weithgareddau sy'n gyffredin i ardaloedd preswyl, gan gynnwys cerdded a beicio yn ogystal â chwarae plant. Bydd y llefydd hyn yn ffocws allweddol yn ein cymdogaethau, a byddwn yn annog cynlluniau sy'n creu dylunio trefol a fframwaith tirwedd nodedig a diddorol. Felly, dylai cartrefi gael eu dylunio yn ôl sut maent yn cyfrannu at y fframwaith hwn. Yn benodol mae angen sicrhau bod y strydoedd a mannau hyn gyda ffryntiad a bod golwg clir ohonynt fel eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn debygol o gael eu defnyddio'n aml gan gerddwyr.

Dylai strydoedd ddarparu mynediad angenrheidiol i gerbydau a pharcio heb roi blaenoriaeth arbennig i gwrdd ag anghenion gyrwyr. Fel y cyfryw, ni ddylai eu cymeriad gofodol a gweledol gael ei ddominyddu gan ymlyniad at safonau priffyrdd caeth. Mae'r *Llawlyfr Strydoedd* yn tynnu sylw at symudiad tuag at gyfuno mathau o gymeriad stryd nodedig â safonau mwy traddodiadol ar gyfer ffyrdd yn seiliedig ar lif traffig a nifer yr adeiladau a wasanaethir. Rydym yn disgwyl i gymeriad gofodol a gweledol llefydd gwahanol mewn cynllun gael eu dylunio'n gyntaf, ac yna cwrdd ag unrhyw safonau yn llawn o fewn dyluniad y llefydd.

Rydym yn cofleidio'r canllaw a gyflwynir yn *Llawlyfr Strydoedd 1 a 2*. Byddwn felly'n gwrthsefyll y mathau o driniaeth priffyrdd sy'n seiliedig ar naill ai *Bwletin Dylunio 32*, sydd wedi ei ddisodli erbyn hyn, neu'r *Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd* nad yw'n berthnasol i'r mathau hyn o briffordd.

### Materion i ymdrin â hwy

Lleoli adeiladau a thirweddau i sefydlu ffurf drefol unigryw. Byddwn yn gwrthsefyll datblygiadau lle mae cymeriad cynllun yn seiliedig ar ddylunio ffyrdd (50).







*50. Disgwylir y bydd y cymeriad llefydd o fewn cynllun yn cael ei ddylunio cyn defnyddio syniadau a safonau priffyrdd manwl mewn cynllun.*

Dylunio cymeriad gofodol strydoedd a mannau cyhoeddus i adlewyrchu eu safle yn yr hierarchaeth.

Dylunio adeiladau, neu grwpiau o adeiladau, i droi corneli, fel bod gan y drychiadau mewn lleoliadau amlwg ansawdd dyluniad sy’n gyson â’r prif ffasâd (51). Sicrhau bod yr holl ardaloedd cyhoeddus, gan gynnwys strydoedd a strydoedd cefn, yn weladwy.

Dylai mynedfeydd i adeiladau gael eu gogwyddo tuag at y stryd a bod yn weladwy ohoni.

Dylid dylunio’r trawsnewid o ofod cyhoeddus i gartref i wella apêl palmant, gyda gofal wrth ddylunio triniaethau ffiniol, storio biniau, tirlunio a mynedfeydd.

Dylai triniaethau ffiniau a ddyluniwyd yn dda, megis waliau a ffensys, atgyfnerthu’r gofod amddiffynadwy a gall fod yn nodwedd amlwg a deniadol o’r treflun (52).

Dylai triniaethau ffiniau sy’n weladwy o dir y cyhoedd fod o ansawdd da, gyda deunyddiau cadarn yn ategu’r rhai a ddefnyddir mewn adeiladau. Gellir defnyddio ffensys aneglur, fel ffensys byrddau clos, mewn llefydd nad ydynt yn weladwy o fannau cyhoeddus.

*51. Dylai dyluniadau ystyried sut mae cartrefi yn troi corneli amlwg fel bod gwyliadwriaeth ac atyniad y ffryntiadau yn cael eu cynnal.*





*52. Nododd y cod dylunio ar gyfer y datblygiad hwn yr angen am ffensys pren gwyn syml o uchder penodol, gan arwain at amrywiaeth fawr o ddyluniadau sy’n gwella’r strydlun.*

Cynhwysir dimensiynau sy'n cynnwys cerbydau'n symud yn ardal y briffordd, fel pennau morthwyl, o fewn mannau trefol a gynlluniwyd yn dda, yn hytrach na rhoi gorchymyn ynghylch beth fydd eu ffurf a chymeriad (53).

*53. Dylai mesurau peirianneg priffyrdd gael eu hintegreiddio'n ddi-dor i syniadau creu lle (llun gwaelod) yn hytrach na rhoi gorchymyn a dominyddu'r cymeriad dilynol (llun uchaf)*





# A yw'r strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u cynllunio gyda phwrpas clir ac i safon sy'n bodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr posibl?

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddatblygiadau fod yn gynhwysol a'u dylunio i roi mynediad i'r ystod ehangaf o bobl ond yn dangos ymwybyddiaeth arbennig o anghenion penodol henoed, plant a phobl gyda namau symudol neu synhwyrol. Hefyd dylai dyluniad strydoedd preswyl gynnwys
anghenion yr holl ddefnyddwyr drwy broses sy'n cwrdd ag anghenion defnyddwyr bregus yn gyntaf cyn ystyried cynnwys ffurfiau eraill o symud. Yn gyffredinol dylai strydoedd gwrdd ag anghenion pobl yn y drefn ganlynol: cerddwyr, beicwyr, cerbydau argyfwng, ac yna gerbydau eraill. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod llwybrau cerddwyr a beicwyr yn fyr ac uniongyrchol a bod cyffyrdd yn hawdd a diogel iddynt eu croesi.

## Materion i ymdrin â hwy

Dylunio bob llwybr yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol a safonau cenedlaethol a lleol cyfredol ar gyfer parcio. Gwybodaeth bellach:

- Llywodraeth Cymru (2014) *Canllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru)* 2013
- CCA *Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Safonau Parcio*
- Cyngor Caerdydd, *Canllaw Dylunio Beicio Caerdydd*
- Adran Drafnidiaeth (2007) *Llawlyfr Strydoedd*
- Adran Drafnidiaeth (2010) *Llawlyfr Strydoedd 2: Defnydd ehangach o egwyddorion*

Creu strydoedd gyda ffurfiau adeiledig a dyluniadau priffyrdd sy'n arwain at gyflymder dylunio cerbydau o ddim mwy na 20mya.

Cael *Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 1* ac *Archwiliad Defnyddwyr Cyfunol* gan yr Awdurdod Priffyrdd i amlygu unrhyw broblemau â diogelwch y briffordd, teithio llesol, hygyrchedd cynhwysol ac agweddau amgylcheddol y cynllun. Bydd y rhain yn tynnu sylw at unrhyw broblemau diogelwch ar y ffyrdd y gellir eu datrys cyn i Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 2 gael ei gwblhau fel rhan o'r Gymeradwyaeth Dechnegol.

Sicrhau bod pob gofod cyhoeddus yn cael ei ddylunio i fod yn gynhwysol fel bod yr holl bobl, gan gynnwys y mwyaf agored i niwed, yn gallu symud yn rhwydd, yn ddiogel ac yn effeithlon o fewn a rhwng cymdogaethau neu gael ansawdd tebyg o fynediad i weddill y ddinas:

- Rhaid i lefelau ar draws cynllun sicrhau hygyrchedd i bob defnyddiwr, gyda darpariaeth graddiant llethr priodol o tua 5%, gyda'r potensial i fod â dim mwy na 8% dros bellteroedd byr iawn.
- Dylai adeiladau fod â mynedfeydd gwastad.
- Dylai wynebau llwybrau a thramwyfeydd gynnwys llwybrau sy'n solet a gwastad, ddim yn llachar na llithrig pan yn wlyb neu sych. Ni argymhellir defnyddio deunyddiau llac, fel gro, cerrig crynion, neu setiau anwastad.

Gellir canfod mwy o ganllawiau ar ddylunio cynhwysol yn: Adran Drafnidiaeth (2005) *Inclusive mobility.*

Ymgynghori â Swyddog Mynediad y Ddinas ar gam cynnar o ddylunio datblygiadau a chynlluniau strategol sy'n ymwneud â darpariaeth sylweddol o ofod cyhoeddus, i geisio cymorth wrth nodi rhwystrau i fynediad a chael arweiniad ar addasiadau.

Darparu ar gyfer symudiadau uniongyrchol a diogel i gerddwyr beicwyr a symudiadau cerbydau ar gyffyrdd a chorneli. Gwybodaeth bellach:

- Llywodraeth Cymru (2014) *Canllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru)* 2013
- CCA *Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Safonau Parcio*
- *Canllaw Dylunio Beicio Caerdydd*

Bydd angen dadansoddiad llwybr ysgubo i brofi bod geometreg priffordd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cerbydau argyfwng, cerbydau gwastraff domestig a cherbydau danfon nwyddau ar yr holl briffyrdd ac mewn mannau troi, a hefyd ar gyfer bysiau ar lwybrau dynodedig.

Mae cyffyrdd yn fannau allweddol mewn cymdogaeth ac ni ddylid dominyddu eu cymeriad gofodol a gweledol gan leiniau gweledfedd sydd yn rhy hael yn ddiangen, neu â radiws cornel gormodol (54).

Sicrhau bod cynlluniau cyffyrdd ar hyd ffyrdd prysurach yn cofleidio syniadau ac arferion cyfredol, gan fodloni anghenion cerddwyr a beicwyr, tra'n caniatáu symudiadau cerbydau yn effeithlon a diogel.

Dylunio strydoedd fel mannau cymdeithasol a chwarae anffurfiol trwy archwilio'r defnydd o ofod a rennir a gynlluniwyd yn dda neu driniaethau "parth cartref", gan adlewyrchu egwyddorion a gwersi o'r canllawiau cyfredol. Gweler y canllawiau penodol ar dudalennau 46/47.

*54. Ar strydoedd preswyl tawel, mae traffig yn mynd yn arafach lle cyfyngir ar weledëdd, tra bod treflun mwy bywiog hefyd yn bosibl. Gall triniaethau gofod a rennir helpu i sefydlu digon o le i gerbydau symud.*



Dylai goleuadau stryd gael eu lleoli i ddarparu lefel addas o oleuni i'r holl fannau cyhoeddus a'u lleoli fel nad yw colofnau goleuo yn rhwystro llwybrau troed. Ni ddylid plannu coed a mathau eraill o blanhigion lle byddant wrth dyfu yn cyfyngu ar effeithiolrwydd rhesymol goleuadau stryd.

Dylai llwybrau ar gyfer defnyddwyr di-fodur gael eu dylunio i gynnwys mesurau a fydd yn atal camddefnydd gan ddefnyddwyr gwaharddedig. Dylid gwrthsefyll y defnydd o rwystrau (gweler enghraifft yn 53, delwedd uchaf), gan y gall y nodweddion hyn wahaniaethu yn erbyn, neu hefyd fod yn rhwystrau i, ddefnyddwyr cyfreithiol, ac efallai y byddant yn groes i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Dylunio bob priffordd, llwybr beicio a llwybr troed i gydymffurfio â'r safonau dimensiwn isafswm a gyflwynir yn Ffigwr 55.

Mewn perthynas â chynnal a chadw ffyrdd y Cyngor yn y gaeaf, efallai y gofynnir i ddatblygiadau ddarparu biniau graean mewn mannau addas.

*55. Dimensiynau angenrheidiol i briffyrdd*

<table>
<tr><th>Math</th><th>Strydoedd asgwrn cefn / Llwybr Bws Arbennig</th><th>Stryd Breswyl</th><th>Ardaloedd a ddyluniwyd yn defnyddio egwyddorion parth cartref</th><th>Llwybr yn gwahanu beicwyr a cherddwyr a hefyd gwahanu oddi wrth draffig</th><th>Llwybrau beicio a cherdded a rennir, wedi'u gwahanu oddi wrth draffig</th><th>Llwybr beicio wedi ei wahanu</th><th>Llwybr cerdded wedi ei wahanu</th></tr>
<tr><td>Disgrifiad</td><td>Llwybr arwyddocaol yn darparu mynediad drwy'r gymdogaeth.</td><td>Dylunio arferol ar gyfer stryd breswyl</td><td>Strydoedd preswyl gydag arwyneb a rennir, a gynlluniwyd gan ddefnyddio egwyddorion dylunio parth cartref.</td><td>Llwybr a rennir gan feicwyr a cherddwyr, ond lle mae gwahanol ddefnyddwyr yn cael eu gwahanu.</td><td>Llwybr a rennir gan feicwyr a cherddwyr, ond lle mae defnyddwyr yn cymysgu</td><td>Llwybr a ddefnyddir gan feicwyr yn unig</td><td>Llwybr a ddefnyddir gan gerddwyr yn unig</td></tr>
<tr><td>Uchafswm cyflymder a ddyluniwyd</td><td>20 mya</td><td>20 mya</td><td>< 20mya</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Nifer o dai a wasanaethir</td><td>Dim cyfyngiad uchaf</td><td>Hyd at 200 annedd</td><td>Hyd at 100 o gerbydau yr awr ar adegau brig</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Gofynion Ffordd Gerbydau</td><td>6.3m (isafswm)</td><td>5.5 – 4.8 m</td><td>Gweler y canllawiau ar wahân ar ddylunio parth cartref</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Gofynion cyffyrdd</td><td>-</td><td>Gyda byrddau o ffordd asgwrn cefn</td><td>Gyda byrddau i'r gofod a rennir</td><td></td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Gofynion Beicio (ynghyd â chliriadau fel a roddir yn y 'Canllawiau Teithio Byw')</td><td rowspan="2">3 metr. Wedi'i wahanu oddi wrth ffordd gerbydau a throedffordd</td><td rowspan="2">Ar y stryd</td><td rowspan="2">Ar y stryd</td><td colspan="3">Gweler DE021 – DE024 yn Canllaw Dylunio - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013</td><td rowspan="2">-</td></tr>
<tr><td>3m (lled clir)</td><td rowspan="2">O leiaf 3m (os yn brysur, ystyried gwahanu).</td><td>3m (lled clir)</td></tr>
<tr><td>Gofynion troedffordd</td><td>2 m ar y ddwy ochr (lled clir)</td><td>2 m ar y ddwy ochr (lled clir)</td><td>Arwyneb a rennir, ond llwybr yn cael ei ddiogelu rhag traffig a pharcio i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.</td><td>Llwybr cerddwyr 2m.</td><td>-</td><td>O leiaf 2 m (lled clir).</td></tr>
<tr><td>Datblygiad ffryntiad</td><td>Gofynnol</td><td>Gofynnol</td><td>Gofynnol</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Trefniadau parcio domestig</td><td>Ar y plot. Tu ôl i'r llinell adeiladu, neu wedi'i gysgodi gan driniaethau ffiniau blaen.</td><td>Ar y plot, gyda thirlunio i gyfyngu ar effaith parcio ar olygfa ffryntiad y stryd</td><td>Ar y plot neu ar y stryd gyda thirlunio i gyfyngu ar effaith parcio ar yr olygfa stryd</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Trefniadau parcio ymwelwyr neu achlysurol</td><td>Ar y stryd ond ddim yn atal y ffordd gerbydau neu'r tracio a ragwelir. (Noder y bydd lled parcio yn ychwanegol at y ffordd gerbydau 6.3 metr).</td><td>Ar y stryd, mewn mannau dynodedig.</td><td>Ar y stryd, mewn mannau dynodedig.</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
</table>

## Strydoedd â gofod a rennir yn defnyddio egwyddorion dylunio parth cartref

**Mae dyluniadau sy'n defnyddio egwyddorion dylunio parth cartref yn arwain at strydoedd preswyl lle rhennir y lle ar y ffordd rhwng cerbydau a defnyddwyr eraill y ffyrdd (56). Y nod yw lleihau effaith y traffig, newid y ffordd y defnyddir strydoedd a gwella ansawdd bywyd mewn strydoedd preswyl drwy eu gwneud yn llefydd ar gyfer pobl, ac nid dim ond yn llefydd a ddominyddir gan gerbydau symudol neu rai wedi'u parcio. Dylai dyluniad yr amgylchedd ei gwneud yn glir i fodurwyr eu bod yn rhannu gofod stryd gyda phobl eraill, ac y dylent yrru'n unol â hynny.**

Mewn amgylcheddau o'r fath, dylunnir y stryd i leihau cyflymder traffig normal i lai na 20 milltir yr awr. Bydd yn haws sicrhau lleihau cyflymder traffig i'r cyflymder dylunio argymelledig pan fo gostyngiad graddol mewn cyflymder ar y ffordd i mewn i'r ardal.

Dylai parthau cartref gael eu lleoli ym mhen mwyaf lleol yr hierarchaeth ffordd a bod yn gyrchfan ar gyfer y rhan fwyaf o draffig

Dylai dylunio lôn gerbydau gynnwys nodweddion sy'n cyfyngu gweledeedd ymlaen, ac annog gyrru araf, ond hefyd dylunio i gynnwys cerbydau mwy.

Ni ddylai'r lled priffordd sydd ar gael i bob defnyddiwr greu llwybrau annerbyniol o eang ar gyfer defnyddwyr ceir, na gwneud symudiad yn rhy feichus i gerbydau mwy a allai fod angen mynd i mewn. Bydd rhaid dilysu llwybrau i gerbydau gan ddadansoddiad llwybr ysgubo i foddhad yr awdurdod priffyrdd.

Gellir defnyddio technegau amrywiol i gyflawni'r cyflymder dylunio a ddymunir, gan gynnwys: arwynebau a rennir; llwybrau anuniongyrchol i gerbydau; cynllunio priffyrdd yn ofalus, ardaloedd o blanhigion yn y stryd; defnydd gofalus o ddeunyddiau wyneb; nodweddion i annog y defnydd o'r stryd, fel seddau ac offer chwarae; ac arwyddion priodol a 'phyrth' i nodi terfynau'r ardal.

Dylid bod yn ofalus i osgoi triniaeth palmant "o wal i wal", sy'n erydu cymeriad y stryd. Gall gosod palmant am unrhyw arwynebedd a rennir adlewyrchu'r defnydd o'r gofod, ac yn benodol, dynnu sylw at y llwybr ar gyfer cerbydau, meysydd parcio neu eistedd a mannau chwarae. Dylai dewisiadau deunydd ar gyfer yr ardaloedd a fabwysiadwyd gael eu seilio ar y palet yn *Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd*.

Ni ddylai bod angen i gerbydau deithio mwy na 400 metr ar hyd parth cartref. Gall pellteroedd hirach arwain at rwystredigaeth gyrwyr.

Ni ddylai parthau cartref brofi mwy na tua 100 o symudiadau cerbydau yn ystod yr awr frig prynhawn pan fydd y siawns mwyaf o wrthdrawiad rhwng pobl yn gyrru a defnyddwyr stryd arall, gan gynnwys plant yn chwarae.

Dylid darparu llwybr diogel dynodedig i bobl ddall a rhannol ddall, ond hefyd i ddefnyddwyr eraill y stryd sy'n agored i niwed, drwy unrhyw elfen mannau a rennir yn y

*56. Mae parthau cartref a ddyluniwyd yn dda yn cyfuno'n llwyddiannus y nodweddion a restrir.*





*57. Dylai parthau cartref gynnwys llwybr diogel i ddefnyddwyr stryd sy'n agored i niwed sydd, trwy ddyluniad, yn cyfyngu ar dresmasiad gan unrhyw gerbydau.*

*58. Byddwn yn gwrthsefyll cynlluniau arwyneb nad ydynt o'u dyluniad yn dod â budd i breswylwyr yn rhinwedd eu dimensiynau, geometreg neu rinweddau gofodol neu esthetig a rennir a ragwelir*



cynllun. Dylai'r llwybr hwn, a'r ffordd ato, gael ei farcio'n briodol i gwrdd ag anghenion y rhai sydd â nam ar y golwg (57).

Efallai na fydd angen amlygu blaenoriaeth cyffordd mewn parth cartref.

Gellir marcio parthau cartref yn glir yn eu mynedfeydd ac allanfeydd gyda nodweddion 'porth' a gynlluniwyd yn ofalus, er mwyn lleihau'r angen am arwyddion.

Diffinnir mannau parth cartref gan adeiladau a thirlunio, yn hytrach na chan ymylon palmant confensiynol a ffyrdd cerbydau.

Dylai anheddau sy'n diffinio ymylon parth cartref edrych dros y llecyn, ac ni ddylai gerddi blaen fod yn hir, gan sicrhau bod perthynas uniongyrchol rhwng yr anheddau a'r gofod parth cartref.

Gall mannau parth cartref gynnwys nodweddion i annog rhyngweithio cymdeithasol megis mannau eistedd a chyfarpar chwarae cymunedol. Dylid lleoli'r rhain yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw golled o amwynder preswyl.

Darperir rhywfaint o barcio ar y stryd mewn parthau cartref, ond rhaid ei ddarparu mewn baeau a nodwyd yn glir. a'i drefnu yn y fath fodd fel nad yw'n creu anghyfleustra i gerddwyr a/neu feicwyr.

Bydd cyfleoedd ar gyfer parcio anystyriol ar y stryd yn cael ei leihau trwy drefniant gofalus o blanhigion a nodweddion eraill o fewn y gofod, ac efallai cyflwynir parthau parcio a reolir i reoleiddio lleoliad parcio.

Bydd y mannau parcio a ddarperir yn cael eu hintegreiddio'n ofalus rhwng planhigion er mwyn lleihau effaith weledol y ceir sydd wedi parcio.

Byddwn yn gwrthsefyll cynlluniau arwyneb nad ydynt o'u dyluniad yn dod â budd i breswylwyr yn rhinwedd eu dimensiynau, geometreg neu rinweddau gofodol neu esthetig a rennir a ragwelir (58).

Ceir mwy o ganllawiau ar ddyluniad parthau cartref yn:

- Biddulph, M (2001) *Home zones: a planning and design handbook*
- IHIE (2002) *Home zones: Design Guidelines*

# A yw'r parcio'n ddigonol i breswylwyr ac ymwelwyr ac wedi ei integreiddio'n dda fel nad yw'n dominyddu'r olygfa stryd?

Mae gennym ddiddordeb yn y modd y mae cynlluniau yn cynnwys parcio ceir a beiciau. Mae'r ffordd a ddarperir ar gyfer parcio ceir yn bryder allweddol i brynwyr tai, ond gall atebion ansensitif gael effaith sylweddol ar gymeriad gweledol adeiladau a strydoedd. Rhaid i ni ddarparu ar gyfer y nifer cywir o fannau parcio. Ceir amrywiol ddulliau derbyniol ar gyfer parcio, ac mae'r cynlluniau gorau yn aml yn cynnwys cymysgedd o atebion, gyda dulliau'n cael eu haddasu i adlewyrchu sut mae parcio yn cyfrannu at gyflawni amcanion a dyheadau dylunio trefol eraill. Byddwn yn gwrthsefyll cynlluniau lle mae parcio oddi ar y stryd yn dominyddu cymeriad gweledol yr amgylchedd wrth edrych o safbwynt cerddwyr. Rhaid dylunio golygfeydd stryd i gael treflun a thirlunio bwriadol, gyda pharcio'n cael ei ychwanegu atynt.

Ar lefel uwch o fanylder, mae angen i'r parcio fod yn gyfleus ac yn weledol, gan ddangos ystyriaeth o fannau i breswylwyr ac ymwelwyr. Hefyd dylid ystyried triniaeth dirlunio'r mannau parcio fel rhan o strydlun ehangach.

*59. Nid yw'r cynlluniau gorau yn cael eu dominyddu gan geir wedi'u parcio, ac maent yn integreiddio ceir i mewn i gynllun mewn amrywiaeth o ffyrdd*

## Parcio ceir

### Materion i ymdrin â hwy


Darparu digon o barcio i breswylwyr sydd wedi'i leoli'n agos at gartrefi pobl. Nid yw'r cynlluniau gorau yn cael eu dominyddu gan geir wedi'u parcio, ac maent yn integreiddio ceir i mewn i gynllun mewn amrywiaeth o ffyrdd (59). Ceir canllawiau pellach ar y dyluniad a'r safonau ar gyfer parcio yn:

- *CCA Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Safonau Parcio*
- English Partnerships (2006) *Car parking: what works, where*

Sicrhau bod y bobl sy'n berchen ar y cerbydau yn gallu edrych dros y mannau parcio.

Darparu digon o le parcio i ymwelwyr, mewn lleoliad cyfleus a greddfol, yn ddelfrydol ar neu'n agos at y stryd (60).

Mewn lleoliadau allweddol, sicrhau bod ceir sydd wedi'u parcio yn cael eu hintegreiddio'n dda i mewn i'r olygfa stryd, heb ddominyddu'r treflun neu'r ffryntiad dilynol. Sicrhau'r defnydd o dirlunio neu ffiniau ffrynt i leddfu effaith weledol cerbydau wedi'u parcio'n berpendicwlar i'r llinell adeiladu a/neu ar y plot ac o flaen y llinell adeiladu. (61).





*60. Darparu mannau parcio i ymwelwyr yn agos at gartrefi ac ar neu yn agos at y stryd*



*61. Dylai tirlunio a ffiniau da guddio ceir sydd wedi'u parcio'n berpendicwlar i ac o flaen y llinell adeiladu.*

*62. Dim ond lle mae'n cael yr effaith leiaf ar ffryntiadau amlwg y dylid defnyddio parcio dan adeilad.*



Lleoli a dylunio parcio fel bod ffryntiad y prif adeilad a'r mynediad i gerddwyr o'r stryd neu cyn agosed â phosibl i'r stryd.

Lleihau'r potensial ar gyfer parcio ar droedffordd drwy ddynodi'n glir unrhyw fannau ar y stryd, a defnyddio nodweddion megis rhwystrau ymwthiol palmant, bolardiau a phlanhigion. Marcio llecynnau parcio unigol mewn ffordd ddeniadol fel rhan o'r driniaeth dirwedd.

Dim ond lle mae'n cael yr effaith leiaf ar ffryntiadau amlwg y dylid defnyddio parcio dan adeilad. Dylai cynlluniau sicrhau bod yr holl brif ffryntiadau i fannau cyhoeddus yn weithredol, gyda phresenoldeb drysau a ffenestri. Bydd ffryntiadau allweddol a ddominyddir gan garejys yn cael eu gwrthwynebu (62).

Dylai mynediad i barcio dan adeilad neu fynedfeydd drwy adeiladau na reolir gan adwy gynnwys arwydd yn nodi uchafswm uchder y cerbydau y gellir eu cynnwys dan yr adeilad. Mae hyn er mwyn osgoi perygl gwrthdrawiad.

Dylunio garejys i fod â deunyddiau a manylion sy'n gyson â'r cynllun ehangach. Ni ddylid eu lleoli mewn lleoliadau amlwg yn y strydlun, megis ar gorneli, o flaen llinellau adeiladu cyson neu ar ben draw golygfeydd stryd amlwg.

Lle bo modd, dylai allanfa tramwyfa fod o led un cerbyd, fel nad yw tramwyfeydd agored yn dominyddu'n weledol gymeriad y strydoedd.

Dylid sicrhau bod mannau parcio yn y cefn yn fach, fel y bydd pobl sy'n eu defnyddio yn dod i adnabod ei gilydd. Dylid osgoi pwyntiau mynediad lluosog o dir y cyhoedd, a pheidio â rhoi llwybrau cyhoeddus drwyddynt. Rhaid darparu llwybr diogel, uniongyrchol a chyfleus rhwng cartrefi ac unrhyw fannau parcio yn y cefn. Mae angen caniatáu cyllideb ddigonol ar gyfer waliau terfyn priodol, tirlunioa goleuadau. Mae angen meddwl p'un a yw eu lleoliad a'r raddfa droseddu leol yn cyfiawnhau gosod adwy (63).

Byddwn yn gwrthsefyll datblygiadau fflatiau lle mae'r prif ofod byw yn wynebu'n syth ar fannau parcio ceir neu gwrt, gyda thirlunio annigonol i leddfu'r olygfa.

Mewn cynlluniau dwysedd uwch, byddem yn annog gorchuddio parcio ar islawr neu lawr gwaelod gyda dec wedi'i dirlunio i roi gofod amwynder preifat neu gymunedol i breswylwyr (64).

*63. Gall llecynnau parcio yn y cefn fod yn nodwedd ddeniadol o gynllun os ydynt yn fach, wedi'u cysylltu'n agos â chartrefi, gyda chartrefi yn edrych drostynt a'u bod wedi'u tirlunio'n ddeniadol (llun gwaelod). Os oes unrhyw rai o'r nodweddion hyn ar goll gallant deimlo'n llwm ac efallai na chânt eu defnyddio (llun brig).*







*64. Gall cynlluniau dwysedd uwch sefydlu deciau parcio gyda mannau deniadol a defnyddiol.*

## Parcio beiciau

### Materion i ymdrin â hwy

Mae pob math o lety preswyl angen dynodi mannau parcio beiciau digonol mewn dyluniad. Dylai lluniadau dylunio ddangos lleoliad a maint y ddarpariaeth parcio beiciau a geir mewn cynllun, a rhoi sicrwydd i ni y bydd hwn dan do ac yn ddiogel. Gellir cael canllawiau pellach ar safonau parcio beiciau a dylunio yn:

- LLywodraeth Cymru (2014) *Canllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*
- *Canllaw Dylunio Beicio Caerdydd*, a
- *CCA Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Safonau Parcio*
- Hefyd gellir gweld canllawiau ar stondinau beic a argymhellir yn *Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd*

Mewn cynlluniau tai, gallai darpariaeth beiciau gael eu dylunio a'u hadeiladu i mewn i'r drychiadau blaen, ynghyd â storio sbwriel ac ailgylchu. Dylai unrhyw ddarpariaeth o'r fath gael ei dylunio i fod yn rhan annatod o ddyluniad tai, ac nid ymddangos fel ei bod yn ôl-ystyriaeth.

Mewn cynlluniau fflatiau, dylid darparu parcio beiciau cyfleus, diogel dan do o fewn cwrtil y cynllun.

Gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer parcio beiciau i ymwelwyr mewn mannau cyhoeddus ffurfiol lle efallai bod beicwyr ei angen. Ei gosod yn agos i gyrchfannau allweddol, mewn lleoliadau sydd â phobl yn mynd a dod, sy'n weledol ac wedi'u goleuo'n dda. Ceir mwy o gyngor ar safonau seilwaith parcio beiciau ar y stryd yn *Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd*.

## A yw'r tai unigol wedi'u cynllunio'n dda i gwrdd ag anghenion a dyheadau preswylwyr y dyfodol a hefyd mewn perthynas â'u cyd-destun?

Dylai cartrefi unigol gael eu cynllunio'n dda ac arddangos ansawdd pensaernïol. Nid yw hyn yn golygu bod gennym ddiddordeb mewn gosod arddull mympwyol o bensaernïaeth ar ddatblygwyr na'u dylunwyr. Mae'n golygu y dylai cartrefi gael eu dylunio i wireddu'r nodweddion sy'n ofynnol o'r canllaw hwn tra hefyd yn darparu dylunio cartrefi sy'n bodloni anghenion a dyheadau preswylwyr yn llawn. Dylai cartrefi:

- ddarparu digon o le i gynnwys preswylwyr a'u ffyrdd o fyw yn gyfforddus;
- darparu ar gyfer hygyrchedd cynhwysol, yn unol â Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu;
- bod yn effeithlon o ran ynni;
- bod yn gadarn ac yn hawdd i'w personoli a'u cynnal;
- arwain at apêl cwrb lwyddiannus a gwella edrychiad ardal.

Gall y cynlluniau gorau hefyd fod yn arloesol a diddorol.

### Materion i ymdrin â hwy

Byddwn yn annog adeiladau sy'n dathlu elfennau cadarnhaol y cyd-destun lleol neu ddarparu cymeriad a ffurf cyfoes newydd da. Mae hyn yn golygu y byddwn yn annog grwpiau o adeiladau sydd â'r nodweddion da canlynol:

- graddfa a maint;
- ffurfiau to;
- deunyddiau adeiladu a defnyddio gwead a lliw;
- cyfrannau ffenestri a chyfansoddiad ffasâd;
- triniaethau ffiniau;
- manylion yr holl agweddau, gan gynnwys cynteddau, mynedfeydd a ffenestri, trawsnewidiadau rhwng deunyddiau, nwyddau dŵr glaw, bargodion, bondoeau a byrddau tywydd, simneiau a gwaith haearn.

Byddwn yn tynnu sylw at sefyllfaoedd lle y gallai mynediad i gartrefi ddisgyn islaw safonau cynwysoldeb trwy gyflwyno grisiau neu lethrau, neu arwynebau anwastad, sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nam symudedd.

Rhaid i lefelau ar draws cynllun sicrhau hygyrchedd i bob defnyddiwr, gyda darpariaeth graddiant llethr priodol o tua 5%, gyda'r potensial i fod â dim mwy na 8% dros bellteroedd byr iawn.

Dylai wynebau llwybrau a thramwyfeydd gynnwys llwybrau sy'n solet, gwastad, ddim yn llachar na llithrig pan yn wlyb neu sych. Ni argymhellir defnyddio deunyddiau llac, fel gro, cerrig crynion, neu setiau anwastad. Gellir canfod mwy o ganllawiau ar ddylunio cynhwysol yn: Adran Drafnidiaeth (2005) *Inclusive mobility.*

Byddwn yn gwrthsefyll cartrefi y credwn, am unrhyw reswm, nad ydynt yn rhoi digon o le i gynnwys y preswylwyr disgwyliedig yn gyfforddus.

Byddwn yn gwrthsefyll datblygiadau diddrwg didda gydag adeiladau nad ydynt yn dangos llawer o dystiolaeth o ofal yn eu ffurf na chyfansoddiad, sy'n ailadrodd elfennau anniddorol ac absenoldeb lwyr unrhyw fanylion perthnasol.

Dylid trin elfennau ategol cartrefi, megis ffiniau, garejys, siediau, parcio beiciau a storio gwastraff a strwythurau ailgylchu, fel rhan annatod o'r dyluniad. Dylai eu hansawdd weddu i weddill y datblygiad.

Byddwn yn gwrthsefyll mathau o ddatblygiad lle mae graddfa a maint unrhyw adeiladau neu elfen arall o'r cynllun yn anghydnaws, neu agweddau o gynllun wedi cael eu dewis neu eu lleoli'n wael yn y strydlun.

Byddwn yn gweithio i wella cyfansoddiadau pensaernïol lle mae'n ymddangos bod y cyfrannau o fewn ffasâd neu grŵp o ffasadau ar hap, neu wedi cael eu hystyried yn wael.

Dylai deunyddiau fod o ansawdd da ac yn addas i'r pwrpas. Dylid eu dewis i ategu'r cyfansoddiad cyffredinol a chymeriad gweledol cynllun a hefyd rhagweld effeithiau hindreuliad.

Mae Canllaw Dylunio Bywiadwyedd Caerdydd yn trafod sut yr ydym eisiau annog patrymau datblygu a ffurfiau cartrefi ynni effeithlon. Byddwn yn croesawu cartrefi a ddyluniwyd i fod yn ynni effeithlon neu'n arloesol fel arall o ran ffurf a chymeriad, pan fo pob mater arall wedi'i drin yn dda, gan gynnwys sensitifrwydd i'r cyd-destun.

# A yw'r dyluniad yn cydymffurfio â'r safonau amwynder angenrheidiol?

Ni fydd bodloni safonau amwynder, ar ben ei hun, yn arwain at gymdogaethau wedi'u dylunio'n dda, ond mae preswylwyr a chymdogion yn pryderu am eu preifatrwydd, eu mynediad i erddi o faint rhesymol neu fathau eraill o ofod awyr agored, a hefyd ansawdd y golau naturiol yn eu cartrefi. Gallai cynlluniau ddarparu'r amwynderau hyn mewn ffyrdd arloesol, ac felly defnyddir y safonau cyffredin hyn yn hyblyg bob amser os yw'r ateb dylunio yn cyfiawnhau hynny.

## Materion i ymdrin â hwy

### Preifatrwydd

- Bydd angen pellter preifatrwydd o 21 metr o leiaf rhwng ffenestri sy'n wynebu ystafelloedd cyfanheddol ar ochr breifat y datblygiad. Gellir defnyddio mesurau dylunio i sicrhau preifatrwydd trwy ddulliau heblaw pellter, megis trwy leoli ffenestr yn ofalus, a thrwy sgrinio.
- Dylai isafswm pellter edrych drosodd o ffenestr gefn uwchben y llawr gwaelod i ardal gardd breifat annedd sy'n wynebu'r eiddo fod o leiaf 10.5 metr.
- Pan fo cartrefi ar ongl o 30 gradd neu fwy i'w gilydd, gallant fod yn nes at ei gilydd, ond efallai y bydd angen mesurau i gyfyngu ar edrych drosodd o'r ardd. Bernir cynlluniau o'r fath ar eu teilyngdod eu hunain.
- Ni ddylai graddfa a màs unrhyw gynllun fod yn ormesol nac arwain at edrych drosodd yn annerbyniol ar eiddo cyfagos.

### Gofod amwynder allanol

- Darparu gerddi cefn preifat caeedig a diogel i'r holl dai a fflatiau ar y llawr gwaelod a allai wasanaethu fel llety i deuluoedd.
- Dylai gerddi fesur o leiaf 10.5m mewn dyfnder neu 50m² yn gyffredinol. Dylid darparu preifatrwydd gweledol am o leiaf ran o'r ardd, ac yn ddelfrydol y gofod yn union yng nghefn yr annedd.
- Rydym bob amser yn annog dulliau arloesol o ddarparu lle amwynder awyr agored a byddant yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod eu hunain.
- Gall mannau amwynder a rennir sydd wedi'u dylunio'n dda, megis gerddi to, gerddi cymunedol a meysydd chwarae ychwanegol fod yn addas mewn rhai mathau o ddatblygiad. Lle bo'r rhain yn cael eu cyflwyno i ddyluniad addas, byddwn yn caniatáu i'r safon ardd ofynnol gael ei chymysgu rhwng y mannau amwynder preifat a rennir, ar yr amod bod yr holl safonau eraill yn cael eu bodloni.
- I erddi cymunedol, dylid darparu isafswm arwynebedd o 75m² ar gyfer hyd at 5 uned, gyda 10m² ychwanegol ar gyfer pob uned ychwanegol.
- Dylai gerddi cymunedol fod wedi'u diffinio'n dda, yn ddiogel a phreifat, yn hygyrch i'r holl breswylwyr ac yn rhan annatod o ffurf a chymeriad y datblygiad. Dylid eu llunio i sicrhau bod holl ofynion swyddogaethol y preswylwyr (sy'n cyfateb i ardd breifat) yn cael eu bodloni, fel ymlacio, sychu dillad neu storio sbwriel.
- Bydd angen darparu balconïau i fflatiau heb unrhyw fynediad uniongyrchol, diogel neu gyfleus i ardd gymunedol neu fannau gwyrdd cyhoeddus addas eraill o fewn eu cyffiniau. Dylent fod o leiaf 5m². Dylid eu gosod mewn lleoliad lle maent yn derbyn golau haul uniongyrchol am ryw ran o'r diwrnod, ac yn ddelfrydol gydag agwedd ddeheuol.

Yn gyffredinol dylid osgoi balconïau mewn lleoliadau maestrefol sefydledig a nodweddir gan erddi cefn mwy os byddant yn arwain at edrych dros eiddo arall mewn modd sylweddol.

### Golygwedd

Dylai ystafelloedd byw mewn anheddau unigol, gan gynnwys fflatiau agwedd unigol, fod â golygwedd ddymunol i strydoedd neu fannau amwynder, yn hytrach nag, er enghraifft, wynebu man parcio wedi'i dirlunio yn wael.

### Golau dydd a golau haul

Mae cyhoeddiad *BRE Site Layout Planning for Daylight and Sunlight: A Guide to Good Practice* yn darparu cyfres o dechnegau ar gyfer asesu i ba raddau mae unrhyw ddatblygiad yn rhoi digon o olau dydd a golau haul i ystafelloedd cyfanheddol a mannau agored mewn unrhyw ddatblygiad, ac unrhyw adeiladau cyfagos yr effeithir arnynt.

Byddwn yn defnyddio'r safonau hyn wrth farnu cynlluniau yn y lle cyntaf, ac efallai y gofynnwn am fwy o dystiolaeth i gyfiawnhau dull dylunio mewn rhai sefyllfaoedd, os ydym yn pryderu am ddigonolrwydd neu effeithiau tebygol.

Gallwn gymhwyso asesiadau ar wahân i feirniadu effaith datblygiad ar ardal awyr agored gyfagos, fel patio, a byddwn fel arfer yn ceisio estyniadau sydd o leiaf 2 lawr i fod o leiaf 2m o ffin yr eiddo.

## Sut y defnyddiwn asesiadau golau dydd a golau haul

Mae'r asesiad o olau haul a golau dydd yn seiliedig ar ganllawiau BRE a gyflwynir yn *Site Planning for Daylight and Sunlight - a guide to good practice* .

Er bod newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir wedi caniatáu rhai mathau o ddatblygiadau mewnlenwi a allai fynd tu draw i'r safonau hyn, lle mae'r cyfle i reoli yn bodoli, byddwn yn defnyddio'r safonau mewn modd rhesymol.

Weithiau defnyddir y canllawiau hyn yn hyblyg gan ein bod yn cydnabod y gellir darparu golau i fannau byw drwy gyfrwng nifer o ddulliau nad ydynt efallai yn amlwg o'r dulliau asesu, tra gallai sefyllfaoedd treflun penodol yn rhesymol haeddu rhywfaint o hyblygrwydd yn eu defnydd. Fel y cyfryw, defnyddir y safonau i ddechrau fel sbardun i wahodd cyfiawnhad pellach ar gyfer cynllun.

Byddwn yn gwrthsefyll datblygiadau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau hyn heb fod cyfiawnhad pellach neu fesurau rhesymol eraill yn eu lle i ddarparu digon o olau.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol yn yr un modd i effeithiau ar adeiladau newydd a phresennol, a dylid eu hasesu'n briodol.

Ni fydd y safonau'n berthnasol i effeithiau sy'n deillio o uchder mân dalcenni.

Lle nad yw'r safonau'n cael eu bodloni, byddwn bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella'r sefyllfa i'r safon ofynnol.

## Ystafelloedd a effeithir


Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ystafelloedd cyfanheddol sydd yn brif fannau byw yn ystod y dydd yn ôl y cynllun gosodiad. Ni fydd asesiadau yn ymwneud â thoiledau, ystafelloedd ymolchi, mannau cylchrediad, stordai, ceginau gali neu lefydd tebyg. Dim ond os ydynt yn rhan o'r gofod byw yn ystod y dydd y cynhwysir ystafelloedd sy'n cynnwys gwelyau mewn asesiad.

Ni fydd ystafelloedd sy'n cynnwys mwy nag un ffynhonnell effeithiol o olau, fel ffenestri ar ffasadau eraill, ffynhonnau neu diwbiau golau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw asesiad (65).

## Y rheol 25 gradd

Mae'r asesiad cyntaf yn ymwneud â ffenestri sy'n wynebu adeiladau eraill neu strwythurau perthnasol.

Bydd adeilad neu strwythur sylweddol yn rhwystro golau rhesymol i ffenestr berthnasol os yw'n torri llinell sy'n ymestyn i fyny o ganol y ffenestr berthnasol 25 gradd o'r llorweddol (66).





*66. Mae'r llinell 25 gradd yn ymwthio o ganol y ffenestr berthnasol. Yn yr achos hwn mae'r cynllun yn gwbl dderbyniol.*

Os yw hyn yn digwydd, gall ymgeiswyr brofi na fydd y ffenestri yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y strwythur hwn drwy fesur y golau dydd gan ddefnyddio'r 'Skylight Indicator' neu'r asesiadau Waldram a nodir yng nghyhoeddiad BRE. Ni ddylai'r mesur o olau dydd sy'n cyrraedd ffenestr ddisgyn o dan 27%. Mae cymwysiadau meddalwedd yn bodoli i helpu gydag asesiad o'r fath.

Os yw'r ffenestr mewn drws gwydr, gall y llinell darddu o 2 fetr uwchben y llawr neu lefel llawr perthnasol.

Os yw adeilad newydd yn gwella'r sefyllfa bresennol, efallai wedyn y gellir defnyddio'r safonau'n hyblyg, a dylid darparu astudiaethau cyn ac ar ôl.



*65. RNi fydd ystafelloedd sy'n cynnwys mwy nag un ffynhonnell o olau yn cael eu cynnwys.*

## Y rheol 45 gradd

Mae'r ail asesiad yn ymwneud ag unrhyw estyniadau o linell adeiladu bresennol, a ffenestri a effeithir gan yr estyniad hwn.


Bydd estyniad yn rhwystro golau rhesymol i ffenestr berthnasol os yw'n torri llinell sy'n ymwthio 45 gradd yn llorweddol (wedi'i asesu mewn cynllun) a fertigol (wedi'i asesu mewn drychiadau perthnasol) o ganol y ffenestr (67).

Dylai estyniadau gyda tho brig gael eu hasesu o ganol y gogwydd.

Gellir defnyddio'r mesur hwn hefyd i asesu ffenestri perthnasol mewn cwrt.

Gall ffenestri sy'n wynebu cael eu hasesu drwy ddefnyddio'r dull 25 gradd.

Mae'n arbennig o bwysig osgoi effaith twnnel, lle'r effeithir ar ffenestr gan estyniadau ymwthiol o ddau gyfeiriad.




## Golau haul


Bydd ffenestri sy'n wynebu o fewn 90 gradd i'r de yn cael rhywfaint o olau haul uniongyrchol am ryw gyfnod y dydd, os nad oes rhwystr.

Bydd dyluniad sensitif mannau byw yn sicrhau bod pob annedd â phrif ystafell fyw yn gallu derbyn swm rhesymol o olau haul uniongyrchol.

## Edrych drosodd

Efallai y bydd angen i fannau cyhoeddus yn yr awyr agored a gynlluniwyd ar gyfer gweithgareddau dewisol, fel eistedd a chwarae, brofi, drwy fodelu cysgod (68), bod y llefydd yn derbyn golau haul uniongyrchol rhwng dechrau mis Ebrill a dechrau mis Hydref.

*68.*



*67. Ni ddylai llinell 45 gradd sy'n ymwthio o ganol y ffenestr yn y drychiad a'r cynllun daro'r estyniad perthnasol. Yn yr achosion hyn, mae'r cynllun yn dderbyniol o ran golwg, ond dengys y cynllun fod yr estyniad yn rhy ddwfn.*

# A yw'r cynllun yn cynnwys cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu digonol a gynlluniwyd yn dda, a gofal o ran lleoliad ac integreiddio cypyrddau mesuryddion?

Gall cyfleusterau casglu a storio gwastraff gael effaith sylweddol ar gymeriad gweledol datblygiad, tra gall eu lleoliad mewn cynllun effeithio ar gyfleustra defnydd a chasglu.  Bydd cynlluniau a ddyluniwyd yn dda yn ystyried cyfleusterau gwastraff fel rhan annatod o driniaeth bensaernïol neu dirwedd. Yn yr un modd, gall cypyrddau mesuryddion fod naill ai'n nodwedd amlwg ddiangen yn y ffasâd, neu gellir eu hintegreiddio'n gadarnhaol ac yn anymwthiol yn weledol (69).

## Materion i ymdrin â hwy

Gellir cael gwybodaeth benodol am wasanaethau a chyfleusterau casglu gwastraff ac ailgylchu a safonau ar gyfer eu dylunio yn y *CCA Casglu a Storio Cyfleusterau Gwastraff*.

Dylai cynlluniau ddarparu mannau addas ar gyfer storio biniau gwastraff cyffredinol, cynwysyddion deunydd ailgylchadwy, biniau bwyd a biniau gwastraff gardd (dim ond lle darperir gardd). Ni ellir storio gwastraff ar y briffordd neu mewn mannau cyhoeddus.

Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer unrhyw ardal storio gwastraff, oherwydd y newid parhaus yn y dulliau casglu gwastraff a ddefnyddir gan y Cyngor hwn.

Gall gwastraff gael ei wahanu i fwy o ffrydiau gwastraff sydd efallai angen storio mwy o gynwysyddion/ cynwysyddion gwahanol.

Dylai cyfleusterau a gofodau fod yn rhan annatod o'r dyluniad a chael eu lleoli mewn ffordd sensitif, wedi'u sgrinio'n dda ac yn hygyrch i breswylwyr a chriwiau casglu.

Yn benodol, dylai unrhyw ardaloedd storio sbwriel sy'n weladwy o fannau cyhoeddus gael eu hintegreiddio'n dda i'r olygfa stryd.

Fel arfer ffefrir cynlluniau fflatiau sy'n darparu gofodau ailgylchu a storio gwastraff wedi'u hymgorffori yn yr adeilad.

Darparu mynediad digonol i gerbydau casglu gwastraff i gyrraedd a chasglu biniau gyda'r pellter teithio lleiaf o'r cerbyd i'r mannau casglu ymyl y ffordd cytunedig. Dylai cerbydau allu cael o fewn 25 medr i unrhyw bwynt storio, ond ffefrir pellteroedd byrrach.

Dylai cypyrddau mesuryddion gael eu hintegreiddio i ddyluniad a bod yn weledol anymwthiol o ffryntiad y stryd.

Gall cypyrddau mesuryddion sydd mewn lliw cyferbyniol i weddill ffasâd adeilad amharu ar ymddangosiad drychiadau annedd, ac os ydynt yn cael eu defnyddio o gwbl, dylent gael eu lleoli mewn modd fydd yn lleihau eu heffaith weledol niweidiol yn y modd gorau.

*69. Dylai storio sbwriel a lleoliad mesuryddion gael eu hintegreiddio yn nyluniad ffasâd unrhyw adeiladau perthnasol fel nad ydynt yn amlwg.*



## A yw'r strydlun yn ddeniadol a chadarn?

Noda'r *Llawlyfr Strydoedd* sut y bu chwyldro tawel yn y modd y gellir dylunio strydoedd. Mae'r safonau llym o'r gorffennol, a arweiniodd at amgylcheddau undonog, wedi mynd, ac yn awr ceir cyfleoedd i greu gwell amrywiaeth o gynlluniau preswyl.

Mae'r rhyddid mwy hwn yn golygu bod angen mwy o ofal i sicrhau bod strydluniau'n cael eu dylunio'n dda, a byddwn yn rhoi cefnogaeth i gynlluniau lle mae'r strydlun yn ddeniadol ac yn gadarn, ond lle hefyd y bydd yn hawdd i'w reoli a'i gynnal.

Yn enwedig, dylai dyluniad strydlun gwrdd ag anghenion defnyddwyr stryd sy'n agored i niwed.

### Materion i ymdrin â hwy

### Wynebau

Pan fo strydoedd i gael eu mabwysiadu, dylai deunyddiau arwyneb gael eu dewis o Lawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd, a dylent fod yn addas i'w swyddogaeth yn y stryd. Dylid ymgynghori â'r Cyngor yn gynnar yn y broses ddylunio ynghylch unrhyw ddeunyddiau sydd i'w defnyddio ar briffyrdd a fydd yn cael eu mabwysiadu.

Dylai strydluniau ystyried cyngor a safonau teithio llesol a geir yng *Nghanllawiau Dylunio: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru*, er mwyn cefnogi ein hymrwymiad ehangach i gyfleoedd teithio llesol.

Dylai'r ystod o ddeunyddiau a ddefnyddir mewn cynllun gael ei gadw i isafswm, ond bod yn ddigon i dynnu sylw at swyddogaethau stryd gwahanol a, lle bo modd, creu diddordeb gweledol. Bydd palet syml o ddeunyddiau o ansawdd da sy'n hawdd eu cael yn ein helpu i gynnal wynebau strydoedd a fabwysiadwyd yn y dyfodol.

Dylai strydluniau gael eu dylunio i gefnogi anghenion defnyddwyr stryd sy'n agored i niwed. Mae'n rhaid i arwynebau a rennir gael eu dylunio i ddarparu llwybr diogel drwodd i bobl, sy'n rhydd o unrhyw draffig neu barcio, gan gynnwys y rhannol ddall. Dylid dewis deunyddiau i ddarparu llwybrau hwylus i bob ardal ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.
Dylid defnyddio cyferbyniad deunyddiau i dynnu sylw at beryglon. Dylid osgoi cyferbyniadau mympwyol a phatrymau cyferbyniol ar raddfa fach, gan y gall y rhain fod yn llygad-dynnol ac yn anodd eu dehongli i bobl sy'n dibynnu ar giwiau gweledol clir.

Gall strydluniau a ddyluniwyd yn wael gyfrannu at undonedd amgylcheddau preswyl, a allai awgrymu gormod o flaenoriaeth i ddefnyddwyr cerbydau, yn enwedig mewn mannau a rennir. Byddwn yn gwrthsefyll dyluniadau lle rydym yn credu y bydd diffyg syniadau ar gyfer ffurf adeiledig, geometreg priffyrdd, plannu a dylunio strydlun yn arwain at yr ansawdd hwn (70).



*70. Byddwn yn gwrthsefyll dyluniadau lle rydym yn credu y bydd diffyg syniadau ar gyfer ffurf adeiledig, geometreg priffyrdd, plannu a dylunio strydlun yn arwain at dreflun undonog a allai roi gormod o flaenoriaeth i ddefnyddwyr cerbydau.*

## Celfi stryd

Dylai'r defnydd o gelfi stryd fod yn rhan annatod o'r dyluniad, a bydd yn helpu sefydlu ansawdd a chymeriad ardal. Dylai fod yn anymwthiol, o ansawdd uchel, yn addas at y diben ac wedi'i gydlynu er mwyn ategu cymeriad gweledol y cynllun strydlun ehangach.

Lle bo angen, dylid grwpio eitemau gyda'i gilydd, dylid rhannu colofnau, neu dylid atodi nodweddion fel goleuadau stryd ynghlwm wrth adeiladau i leihau effaith blêr dyluniadau anhrefnus.

Fel gydag agweddau eraill ar strydlun, dylid cyfyngu ar yr ystod o liwiau a dyluniadau a ddefnyddir, fel nad yw'r celfi stryd yn dominyddu'r olygfa, ond mae angen sicrhau bod eitemau yn cael eu gwahaniaethu'n glir o fewn eu cyd-destun, fel eu bod yn weladwy i bobl sy'n rhannol ddall (71).



*71. Dylid gallu gweld celfi stryd yn glir o fewn eu cyd-destun fel eu bod yn weladwy i bobl rhannol ddall.*

## Celf Gyhoeddus

Weithiau mae celf gyhoeddus yn nodwedd sy’n cael ei dathlu’n fawr mewn amgylcheddau preswyl newydd, a byddwn yn annog ei chynnwys mewn datblygiadau perthnasol.

Lle bo polisi yn mynnu hynny, byddem yn annog meddwl yn gynnar ynghylch sut y gellid integreiddio celf i ddyluniad ac yna ei chynnal wedi hynny. Gellir canfod canllawiau pellach ar sut y gellid datblygu celf gyhoeddus i mewn i gynllun yn *Strategaeth Celf Gyhoeddus Caerdydd*. Mae *CCA Celf Gyhoeddus Caerdydd* yn darparu canllaw manwl ar ofynion y Cyngor o ran darparu gweithiau celf sy’n deillio’n benodol o’r broses ddatblygu.

Byddem yn annog integreiddio celf i mewn i’r mannau neu olygfeydd mwyaf blaenllaw mewn cynllun, fel y gellir ei gweld a’i mwynhau gan y mwyafrif o bobl (72).


72

Ni ddylai celf achosi unrhyw fath o rwystr, a dylai fod yn gwbl weledol wrth edrych arni o bwynt penodol yn erbyn ei chyd-destun.

Nid oes angen defnyddio celf gyhoeddus yn yr ystyr draddodiadol, i greu gwaith arwahanol. Yn lle hynny gellid ei hintegreiddio i ddyluniad agweddau mwy cyffredin o le, megis arwynebau, arwyddion, seddau, triniaethau ffiniol neu waith haearn (73).

Gallai gwaith celf gael ei datblygu gyda mewnbwn gan breswylwyr yn y dyfodol er mwyn sefydlu ymdeimlad o berchnogaeth a chefnogaeth i weithiau sy’n dod i’r amlwg.



73

# Cyhoeddiadau defnyddiol y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn

## Llywodraeth Cymru

*Polisi Cynllunio Cymru*

*Canllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Gofynion Ansawdd Datbloygu*

*Canllaw Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy*

*Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru*

*Nodyn Cyngor Technegol 5: Natur a Chadwraeth*

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Canllawiau Datganiadau Dylunio a Mynediad*

## Cyngor Caerdydd

*Cynllun Datblygu Lleol 2006-2026*

*Fframwaith Uwchgynllunio Cynllun Datblygu Lleol*

*Canllaw Dylunio Bywiadwyedd: Creu llefydd, dylunio trefol, pensaernïaeth*

*Canllaw Dylunio Beicio Celf Gyhoeddus*

*Llawlyfr Strategaeth Tir y Cyhoedd*

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

- *Celf Gyhoeddus*
- *Seilwaith Gwyrdd (ar y gweill)*
- *Safleoedd Mewnlenwi*
- *Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth a Pharcio (ar y gweill)*
- *Draenio Trefol Cynaliadwy (ar y gweill)*
- *Casglu a storio gwastraff*

## Llywodraeth y DU


Adran Drafnidiaeth (2007) *Manual for Streets*, Llundain: DfT

Adran Drafnidiaeth ( 2010) *Manual for Streets 2: Wider Application of the Principles*, Llundain: DfT

Adran Drafnidiaeth (2005) *Inclusive mobility,* Llundain: DfT


## Eraill


Biddulph, M (2001) *Home zones: a planning and design handbook*, Bristol: Polisi Press

Birkbeck, D and Kruczkowski, S (2015) *Building for Life 12: Wales*, Nottingham: Nottingham Trent University

Building Research Establishment (2011) *Site Layout Planning for Daylight and Sunlight: A Guide to Good Practice*, Watford: BRE Trust

Comisiwn Dylunio Cymru (2016) *Site and Context Analysis: Capturing the value of a site*, Caerdydd: CDC

English Partnerships (2006) *Car parking: what works, where*, Llundain: EP

Institute of Highway and Incorporated Engineers (2002) *Home zones: Design Guidelines*, Llundain: IHIE

Play England (2008) *Design for Play*

Sustrans (2014) *Handbook of cycle friendly design*, Bristol: Sustrans

Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (2004) *Biodiversity by design: a guide to sustainable communities*, Llundain:TCPA

Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (2012) *Planning for a healthy environment - good practice for green infrastructure and biodiversity*, Llundain: TCPA

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru (2016) *Seilwaith Gwyrdd: catalydd ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru*

# Crynodeb o Sylwadau Ymgynghoriad Allanol ac Ymatebion

| Rhif Tud. | Sylwadau | Ymateb |
|---|---|---|
| Sylw cyffredinol | Mae hon yn ddogfen drylwyr iawn sy'n cwmpasu'n fanwl yr elfennau y dylid eu hystyried wrth ddylunio ac adolygu datblygiadau preswyl. Mae safbwynt y Cyngor yn glir o ran ardaloedd penodol, gan nodi disgwyliadau clir gan ddatblygwyr. Croesewir y cyfeiriad at Adeiladau er Oes 12 Cymru yn ogystal â'r Canllaw Dadansoddi'r Safle a Chyd-destun a Chynlluniau ar gyfer adeiladau Cynaliadwy gan Gomisiwn Dylunio Cymru, fel y cyfeiriad i ymgynghori â'r Comisiwn. Mae penawdau'r isadran yn cynnig set ddefnyddiol o gwestiynau i adolygu cynnig datblygu. | Nid oes angen ymateb |
| Sylw cyffredinol | Mae cwmpas a chynnwys y canllaw dylunio'n gynhwysfawr. Er y gallai gael ei ystyried yn ddefnyddiol wrth bennu'r mathau o faterion i'w hystyried, mae ganddo'r potensial ddod yn anodd iawn ei ddefnyddio wrth baratoi cynlluniau ac asesu dyluniad datblygiad os y'i dilynir yn gaeth. Gyda lefel a natur y materion dylunio a godwyd yn y Canllawiau Cynllunio Ategol, mae'n debygol iawn y bydd nifer o'r egwyddorion yn gwrthdaro â'i gilydd a phrin y bydd modd i gynllun gynnwys yr holl egwyddorion dylunio yn enwedig pan roddir ystyriaeth bellach fel cyfyngiadau safle, buddiannau cyferbyniol rhwng ymgynghoreion a chostau datblygu. Felly mae'n hanfodol bwysig mabwysiadu dull cytbwys o ymdrin â dylunio ac nad yw'r materion a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Ategol fel rhestr wirio i'w dilyn wrth baratoi neu asesu cynlluniau datblygu. Credwn y dylai'r Canllawiau Cynllunio Ategol drafft gynnwys canllawiau cyffredinol. | Mae'r themâu a'r materion yn y canllawiau'n gyffredin â dylunwyr cynlluniau preswyl ac yn unol â TAN 12 ac Adeiladu am Oes 12 (Cymru). Mae lefel y cynnwys a roddir yn gyffredinol unol â'r Canllawiau Cynllunio Ategol blaenorol ar y pwnc hwn o 2008. Aiff i'r afael ag ystod lawr y materion y dylai dylunydd y cynllun ei ystyried ond dylai hefyd fod yn amlwg na fydd pob mater yn berthnasol i bob cynllun. Ysgrifennir y canllawiau hyn ag iaith ofalus i sicrhau eglurder lle bydd y Cyngor yn meddu ar farn gref, a meysydd pryder. Bydd dylunwyr da'n gyfarwydd â'r deunyddiau a'r dull. |
| Sylw cyffredinol | Gallai rhifo adrannau ac isadrannau helpu wrth chwilio dogfen. Gallai defnyddio crynodebau a chroesgyfeirio helpu i leihau nifer y geiriau. | Teimlwn fod strwythur y ddogfen yn glir, gyda phenawdau ac is-benawdau syml yn cael eu defnyddio. Mae hefyd yn cynnwys lluniau gyda thabl clir o gynnwys. Nid ydym yn argyhoeddedig y byddai crynodebau'n cynnig rhagor o eglurder, gan fod y materion allweddol eisoes wedi'u crynhoi dan gwestiynau perthnasol. |
| Sylw cyffredinol | A oes anghenion neu ystyriaethau gwahaniaethol ar gyfer datblygiadau preswyl canol y ddinas i aneddiadau ar y cyrion neu fewnlenwi? A wnaed unrhyw waith ar ddeall cyd-destun lleol ardaloedd gwahanol y gellir cyfeirio atynt? | Ysgrifennwyd y canllawiau hyn i fod yn gyffredinol ac yn berthnasol i bob ardal o'r ddinas. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon i'r angen am ddadansoddiad safle a chyd-destun yn annog dulliau dylunio priodol i gynnwys amrywiaeth mewn rhannau gwahanol o'r ddinas. |
| Sylw cyffredinol | Gallai fod yn berthnasol trafod: ystyriaethau datblygu graddedig; rhoi neu ganiatáu cysylltiadau â safleoedd datblygu posibl yn y dyfodol; ac ystyriaethau rheoli a chynnal a chadw yn y dyfodol. | Cyfeirir yn gryno at yr angen am gynlluniau graddedig ar gyfer cyflawni seilwaith a mannau agored angenrheidiol (4, 32). Mae hefyd yn cynnwys polisi CDLl KP4. Cyfeirir at gynlluniau angenrheidiol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw mannau cyhoeddus ar dudalennau 27, 31, 32 a 34. Mae'r angen i gyfrif am fynediad i safleoedd datblygu cyfagos yn cael ei gyfeirio ato ar dudalen 17. |
| Cyfeiriad cyffredinol at fathau safonol o dai | Nid yw ymddangosiad aneddiadau ond yn un elfen o'r broses ddylunio ac nid yw defnyddio mathau o dai o batrwm datblygwyr tai yn eithrio cynllun rhag bod yn un â dyluniad o safon uchel. Nid yw cynllun, mynediad, perthynas â man agored cyhoeddus a gwasanaethau yn ogystal ag ystyriaethau ardal gyhoeddus ond yn rhai o'r agweddau a all sicrhau cymunedau wedi'u dylunio'n dda, waeth beth fo union bryd a gwedd y mathau o dai. Mae nifer o enghreifftiau o gynlluniau datblygu o safon uchel lle defnyddiwyd mathau safonol o dai. Credwn fod tôn y neges a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Ategol drafft o ran defnyddio mathau safonol o ddatblygwyr tai angen ei ystyried ymhellach. | Nid yw'r canllaw fel arfer yn sôn bod defnyddio mathau safonol o dai'n ffurf annymunol ar ddatblygu, er bod sylwedd y canllawiau'n adlewyrchu ystod lawn o faterion. Ni chyfeirir at y mater hwn ond ar dudalennau 10 ac 21. Ar dudalen 21 mae'r canllawiau'n nodi: "Osgoi defnydd gormodol o fathau safonol o adeiladau (21). Dylai mathau safonol o dai gael eu grwpio a'u haddasu i'w lleoliad mewn cynllun a threflun a ystyrir yn ofalus." Byddwn yn ychwanegu testun pellach yn gryno i amlygu neges gadarnhaol ynghylch sut y mae mathau safonol o dai'n cael eu defnyddio'n helaeth yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ac yn dileu'r frawddeg gyntaf. Byddwn hefyd yn addasu'r testun yn nelwedd 21 i gyfeirio at y dyluniadau strydlun a thirlun fel ffactorau sy'n effeithio ar nodweddion cynllun. Eir i'r afael â'r materion hyn ymhellach mewn rhannau eraill o'r canllawiau. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfeiriad cyffredinol at fathau safonol o dai | Gall mathau safonol o dai gyfrannu at greu ffurf ddeniadol ar ddatblygu gyda'i chymeriad ei hun, ar yr amod bod y mathau safonol o dai a ddefnyddir o ddaliadaethau amrywiol a'u bod yn cynnwys amrywiaeth priodol o ran maint, deunydd, dwysedd a ffenestri. | Gweler yr ymateb uchod. |
| 11 | Crynhoi'r cwestiynau dylunio allweddol. Creu Llefydd, trydydd pwynt bwled: awgrymwn ddefnyddio geiriau gwahanol i 'ecsploetio' fel 'integreiddio'n sympathetig' neu 'ymateb yn gadarnhaol i'. Yn ogystal â chynnig barn ar ddatblygu, gall tir uchel neu dopograffeg lethrog wneud datblygiad yn amlwg i'r ardaloedd cyfagos ac mae angen dyluniadau arbennig o sensitif mewn achosion o'r fath. | Caiff y geiriad ei addasu. |
| 12-17 | Mae canllawiau dan yr Adran hon yn bwysig ond mae cyfyngiadau iddynt os yw'r strwythur a ffurf y datblygiadau presennol yn diffinio cyd-destun ffisegol uniongyrchol safle sy'n dioddef o ddiffygion dylunio trefol difrifol. Felly mae'r dull angen bod yn driw i gyd-destun datblygiad sy'n bodoli eisoes ac i ba raddau y dylai'r datblygiad newydd barchu'r cyd-destun hwn a all fod yn wirioneddol integredig â'r gymdogaeth sydd ohoni. | Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag unrhyw faterion dan reolaeth dylunydd neu ddatblygwr ac nid i broblemau dylunio trefol a allai fodoli o fewn cyd-destun ehangach. Gall y canllawiau hyn gael eu defnyddio i asesu addasrwydd rhai safleoedd o ran ffurfiau cynaliadwy at ddatblygu, ac mae'n gywir dweud bod rhai'n annerbyniol. Rydym yn hyderus bod maint y datblygiadau mewn safleoedd strategol yn golygu bod modd mynd i'r afael â'r materion hyn yn llawn ar y safle. |
| 19 | Tra bod dwysedd fel arfer yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu'r defnydd effeithlon o dir, bydd y galw yn y farchnad a'r angen am dai'n cael goblygiadau ar y mathau a'r meintiau o dai y gellir eu codi, a fydd yn eu tro'n dylanwadu ar fath a maint y datblygiad preswyl. Bydd hyn yn ei dro'n effeithio ar y maint a'r ddwysedd y gellir eu cyflawni. Awgrymwn fod safonau eraill fel cymarebau lleiniau ac ystafelloedd bywadwy yr hectar, ynghyd ag ystyriaethau eraill fel maint, uchder adeiladau a ffurfiau'n cael eu defnyddio gan y gallent fod yn fwy gwerthfawr ar gyfer llywio a phrofi cynigion. | Mae dwysedd yn ddangosydd sefydledig sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy – i gefnogi hyfywedd cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Nid yw'r ystodau dwysedd uwch yn eithrio dewis o dypolegau preswyl yn cael eu cyflawni, gan gynnwys tai teras neu gyrtiau, a thai lloches a fflatiau.<br>Yn y testun byddwn yn cyfeirio at bolisïau CDLl ar gyfer y safleoedd strategol sydd eisoes yn cyfeirio at y dwyseddau a ddisgwyliwn. O ran safleoedd eraill, byddwn yn addasu'r tabl i adlewyrchu polisi CDLl yn agosach, a hefyd yn creu cwmpas ar gyfer dull mwy hyblyg o gyflawni dwyseddau'n seiliedig ar nifer y lleoedd gwely yr hectar. |
| 19 | Mae [ein datblygiad] yn annhebygol o bob amser bodloni'r uchderau blociau sylfaenol dymunol i ddatblygiadau sy'n benodol o'r amryw leoliadau. | Cytunwn yn gyffredinol nad oes angen i drafodaeth am ddwyseddau drafod uchder adeiladau y cyfeirir atynt mewn rhannau eraill o'r ddogfen. Fe'u cymerir allan o'r diagram. |
| 19 | Teimlwn fod angen ei gwneud yn glir taw'r ffigurau dwyseddau ac uchder ar gyfer datblygiadau a nodir yn Ffigur 18 yw dyheadau dwysedd y Cyngor ac nid safonau sylfaenol. | Cyfeirir at isafswm dwyseddau ym mholisi'r CDLl ar gyfer y safleoedd strategol penodol. Oddi ar y safleoedd, mae ymrwymiad i ffurfiau cynaliadwy ar ddatblygu'n gofyn am gyfeirio at safonau dwysedd sylfaenol, os ydym i gyflawni ffurfiau ar ddatblygu sy'n lleihau eu heffaith amgylcheddol, fel y'u hadlewyrchir yn y CDLl yn gyffredinol. Bydd alinio safleoedd eraill â disgwyliadau dwysedd ar gyfer safleoedd strategol ar y CDLl yn gyson. |
| 19 | A ddylai dwysedd, math o stryd a math o uned gydberthynu fel hyn? Er enghraifft, gallai blociau fflatiau bach neu fflatiau deulawr ar stryd sydd fel arfer yn dai pâr neu ar wahân gynnig amrywiaeth helaethach o opsiynau tai a rhagor o amrywiaeth. | Cytunwn yn rhannol. Caiff cyfeiriadau ar fath yr uned ac uchder adeiladau eu dileu o'r darn hwn o'r canllawiau er gan adlewyrchu polisïau CDLl byddwn yn parhau i fod a phryderon am ddwyseddau ar hyd llwybrau allweddol. Mae'n bosibl lleoli amryw adeiladau yn yr ystodau dwysedd hyn. |
| 21 | Rhaid i fwyafrif helaeth y tai i'w codi ar draws Caerdydd dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol gael eu codi gan adeiladwyr tai cenedlaethol a fydd â llyfrau patrwm o fathau o dai y gallan nhw eu darparu. Er y gallai'r rhai'n amrywio i raddau, yn fasnachol ni fydd o reidrwydd yn bosibl cynnig mathau pwrpasol o dai ar leoliadau penodol. | Ni chyfeirir at fater dylunio pwrpasol ond ar dudalen 21 ym mhwynt bwled 4 ar y rhestr, lle awgrymir y dylai cynlluniau ar gyfer ffurf adeiledig amlygu mannau nodal allweddol "sy'n gofyn am driniaethau tirlun a ffurf adeiledig arbennig, a bod angen atebion dylunio mwy pwrpasol". Rydym wedi newid hyn i "o bosibl angen". |
| 21 | Noda canllawiau dan y pennawd hwn ar Dudalen 21 y bydd Cyngor y Ddinas yn "gwrthsefyll datblygiadau sy'n gwneud defnydd gormodol neu amhriodol o fathau safonol o adeiladau sy'n dominyddu ffurf a chymeriad cynllun". Teimlwn fod perygl gyda'r datganiad hwn yn y ffordd y gallai atal creu [datblygiadau] wedi'u cynllunio'n dda a nodweddir gan fathau syml, unfath, safonol o dai. Felly gofynnwn i'r Canllaw hwn gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r potensial am fathau safonol o adeiladau ynghyd â dyluniadau pwrpasol mewn lleoliadau amlwg, yn enwedig i'r sawl mewn coridorau trafnidiaeth neu ganolfannau cymdogaeth. | Addaswyd y canllaw hwn yn unol â hynny. |
| 29 | Dylai hefyd fod modd nodi blociau fflatiau gydag arwyddion clir yn cynnig rhifau neu enwau blociau. Dylai'r mynediad i'r blociau fflatiau hyn fod yn weladwy ac yn groesawgar. | Caiff y pwyntiau eu hychwanegu. |

| | | |
|---|---|---|
| 33 | Yn yr adran materion i'w hunioni (tudalennau 33-34) argymhellwn gynnwys cynlluniau paramedrau tirlun/seilwaith gwyrdd amlinellol nodi'n glir gysyniadau mannau agored strategol a seilwaith gwyrdd y gellir eu dwyn ymlaen i geisiadau materion a gadwyd yn ôl. Dylai cynlluniau o'r fath nodi amcanion ar gyfer ardaloedd a llwybrau gwahanol a dylent ystyried gwaith rheoli hirdymor yn arbennig ardaloedd a nodweddion i dir cyhoeddus a rheoli cartrefi / cymunedau. | Mae'r pwynt wedi'i gynnwys. |
| 38 | Awgrymwn y dylai'r testun sy'n datgelu tirlun (tudalen 38) gyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Ategol Seilaith Gwyrdd sy'n dod i gynnig rhagor o arweiniad. Argymhellwn gyfeirio at y dogfennau canlynol:<br>- Adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru Seilwaith Gwyrdd;<br>- Pecyn Mannau Gwyrdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch | Caiff y cyhoeddiad cyntaf ei ychwanegu. Ni ellid dod o hyd i'r llall yn hawdd. |
| 39 | Mae profiad yn awgrymu bod gofynion gan Awdurdodau Priffyrdd i gydymffurfio â safonau peirianneg, a chynnal rhwymedigaethau cynnal a chadw at gyfer prif strydoedd, yn gallu tanseilio ymdrechion creu llefydd. Nid oes modd gwireddu dyheadau ar gyfer y mathau o strydoedd a mannau a ragwelir gan y 'Llawlyfr Strydoedd' heb gymorth clir yr Adran Briffyrdd ... Os yw lle i fod yn nodwedd lwyddiannus o ddylunio priffyrdd, bydd angen cynnwys yr Adran Briffyrdd o'r cychwyn cyntaf ac ar gamau gwahanol o'r broses uwchgynllunio | Mae ein tîm priffyrdd wedi cynnig adborth ar y ddogfen hon, rydym yn ymwybodol iawn o'r mater. |
| 53 | Maint lleiaf gardd i gartref sy'n destun Gofynion Dylunio Llywodraeth Cymru (GAD) yw 40 metr sgwâr. Yn absenoldeb unrhyw gyfiawnhad cadarn, cwestiynwn y safonau gofynnol a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Ategol drafft. | Mae safonau sylfaenol ar gyfer gerddi preifat mewn tai teuluol yn adlewyrchu safon gyson rhwng amryw CCAau yn y Ddinas, gan gynnwys y fersiwn flaenorol o'r Canllawiau Cynllunio Ategol hyn, a fersiynau hanesyddol ar ganllawiau dylunio ar ddatblygu mewnlenwi. Mae'r ardal hon yn cydymffurfio'n gyson â safonau amwynderau eraill yn y canllawiau sy'n berthnasol i'r tai lleiaf a ddatblygwyd yn y ddinas, gan gynnwys yr angen am o leiaf 10.5m o erddi cefn cyfagos at ddibenion preifatrwydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod pob teulu yn y tai lleiaf ag ardal awyr agored resymol, ond mae'n hyblyg o ran sut y darperir mathau eraill o amwynderau mewn typolegau preswyl eraill. Mae'r cwmpas bob amser yn asesu i ddylunwyr awgrymu ffurfiau arloesol ar e.e. darpariaeth man amwynder cymunedol a allai leihau maint yr ardaloedd. Adlewyrchir hyn mewn rhannau eraill o'r testun ar dudalen 53. |

Am wybodaeth bellach ar unrhyw agwedd o’r canllaw hwn, cysylltwch â:

dylunio@caerdydd.gov.uk